Y Cyngor
Deintyddol
Cyffredinol

diogelu cleifion,
rheoleiddio'r tîm deintyddol

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2013

www.gdc-uk.org

# Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2013

## Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i'r Senedd ac i Senedd yr Alban yn unol ag adran 2B o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Cyflwynwyd y cyfrifon i'r Senedd ac i Senedd yr Alban yn unol ag adran 2C o Ddeddf Deintyddion 1984 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn (Diwygio) 2005 Deddf Deintyddion 1984, Gorchymyn 2008 Deddf Cwmnïau 2006 (Diwygiadau Canlyniadol ac ati) a Gorchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol a Seicolegwyr Ymarfer) 2009.

Gorchmynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin 10 Gorffennaf 2014.

HC290
SG/2014/89

**© Hawlfraint y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2014**

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim (heblaw am logos yr Arfau Brenhinol, lle maent yn bresennol, a logos pob adran ac asiantaeth) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod mai'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol sydd â'r hawlfraint i'r deunydd a dylid nodi teitl y ddogfen. Pan nodir deunydd trydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd y deilydd hawlfraint priodol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn, dylech anfon e-bost i information@gdc-uk.org neu ffonio 020 7167 6000.

ISBN argraffu: 9781474105835

ISBN y we: 9781474105842

Argraffwyd yn y DU gan y Williams Lea Group ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi

Rhif Adnabod: 02061405 07/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibrau wedi'u hailgylchu.

# Cynnwys


| Adran | Teitl | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Diben statudol | 6 |
| 2 | Neges gan y Cadeirydd | 7 |
| 3 | Cyflawni yn erbyn Cynllun Busnes 2013 | 9 |
| 4 | Adroddiad ystadegau rheoleiddio:<br>Cofrestru<br>Addasrwydd i Ymarfer<br>Gwrandawiadau | 17 |
| 5 | Strwythur y Cyngor | 29 |
| 6 | Adroddiad tâl | 37 |
| 7 | Adroddiad cyfrifoldeb cymdeithasol | 41 |
| 8 | Adolygiad Ariannol | 43 |
| 9 | Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr | 49 |
| 10 | Datganiad Llywodraethu | 50 |
| 11 | Cyfrifon 2013 | 56 |
| 12 | Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol | 57 |
| 13 | Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ'r Senedd | 59 |
| 14 | Cyfrif Incwm a Gwariant | 60 |
| 15 | Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | 61 |
| 16 | Datganiad Llif Arian | 62 |
| 17 | Datganiad o Newidiadau i Gronfeydd wrth Gefn | 63 |
| 18 | Nodiadau i'r cyfrifon | 64 |
| 19 | Cynghorwyr | 86 |

# Diben statudol

# 1

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Rhaid i bob deintydd, nyrs ddeintyddol, technegydd deintyddol clinigol, technegydd deintyddol, hylenydd deintyddol, therapydd deintyddol a therapydd orthodonteg gofrestru gyda ni er mwyn cael gweithio yn y DU.

Ein diben yw diogelu'r cyhoedd trwy reoleiddio'r tîm deintyddol. Rydym yn gwneud hyn trwy:

- gofrestru gweithwyr proffesiynol cymwys;
- gosod safonau uchel o ran ymarfer deintyddol ac ymddygiad;
- diogelu'r cyhoedd rhag ymarfer anghyfreithlon;
- sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant deintyddol cyn cofrestru;
- sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf;
- ymchwilio i gwynion a dderbyniwyd am addasrwydd i ymarfer a gweithredu arnynt;
- helpu cleifion a'r proffesiwn i ddatrys cwynion am ddeintyddiaeth breifat, drwy'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.

Mae rheoleiddio gweithwyr deintyddol proffesiynol yn effeithiol yn gwella diogelwch cleifion, mae'n gwella ansawdd gofal deintyddol ac yn cynorthwyo i fagu hyder y cyhoedd mewn rheoleiddio deintyddol.

Ein nod yw rheoleiddio mewn ffordd sy'n gymesur, atebol, eglur, cyson, wedi'i thargedu ac yn ymatebol i ofynion, risgiau a blaenoriaethau sy'n newid.

# Neges gan y Cadeirydd



**William Moyes, Cadeirydd**

**2**

Yn ystod fy misoedd cyntaf fel Cadeirydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gwelwyd newidiadau sylweddol ym maes rheoleiddio iechyd. Mae gan y cyhoedd a gwleidyddion ddisgwyliadau llawer uwch o reoleiddio gofal iechyd erbyn hyn ac mae diogelwch cleifion ac effeithiolrwydd triniaethau a gwasanaeth yn hollbwysig. Rwy'n falch bod ein gwaith ymchwil gyda'r cyhoedd yn dangos eu bod yn ymddiried yn fawr mewn rheoleiddio deintyddol ac yn ein gwaith ni, ond mae gofyn i ni ennill yr ymddiriedaeth honno a pharhau i ystyried gwerth ac effaith ein gwaith rheoleiddio gyda golwg ar ei wella.

Yn 2013, cyflwynodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol raglen waith a oedd yn cynnwys safonau newydd i weithwyr deintyddol proffesiynol; cyflwynwyd mynediad uniongyrchol; adolygwyd cwmpas ymarfer yn ogystal â newidiadau i'n gweithrediadau addasrwydd i ymarfer.

Dechreuwyd ar y gwaith mawr o ailddatblygu ein pencadlys yn 37 Wimpole Street. Mae'r brydles yn para tan 2057 gyda rhent blynyddol o £5,050 felly mae'n gost-effeithiol ailddatblygu'r adeilad i sicrhau ei fod gweithredu'n hollol effeithiol fel swyddfa fodern.

Rydym hefyd wedi ceisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd ar draws y sefydliad ar adeg pan fo'r cwynion rydym yn eu derbyn yn parhau i godi'n ddramatig. Er hynny, mae cyfran incwm y Cyngor Deintyddol Cyffredinol sy'n cael ei gwario ar addasrwydd i ymarfer wedi codi o reidrwydd, ac mae'n debyg y bydd hyn yn digwydd eto yn 2014.

Hoffwn ddiolch i Kevin O'Brien ac aelodau blaenorol y Cyngor, a gwblhaodd eu cyfnod yn y swydd ym mis Medi 2013, am eu gwaith caled a'u hymroddiad i lywio'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol drwy gyfnod o newid ym maes rheoleiddio. Maent wedi darparu sylfaen gadarn i ni adeiladu arno.

Mae'r Cyngor newydd, llai nawr ar waith. Rydym yn diffinio ein rôl fel un sy'n debycach i fwrdd cyfarwyddwyr sefydliad sy'n rheoli cyllideb o £35 miliwn y flwyddyn. Felly, rydym yn canolbwyntio ar bolisïau ac amcanion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a sut mae'r rhain yn cael eu gweithredu er mwyn bod yn sail i ddiogelu'r cyhoedd, ar gyflawni strategaeth y Cyngor yn effeithlon, ac ar sicrhau bod systemau llywodraethu effeithiol ar waith ledled y sefydliad.

Tasg gynnar ac allweddol i'r Cyngor newydd fydd adolygu ein strategaeth gyfredol a phennu blaenoriaethau newydd i sicrhau bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol fel rheoleiddiwr yn y sefyllfa orau i ddiogelu cleifion.

Mae angen mynd ati ar frys i wella ein perfformiad addasrwydd i ymarfer gan nad ydym yn amlwg yn bodloni'r holl safonau a ddisgwylir gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, fel y datgelwyd yn eu harchwiliadau. Mae hyn yn siomedig a rhaid wrth newidiadau sylfaenol - bydd y Bwrdd yn gweithio gyda'r tîm rheoli gweithredol i roi blaenoriaeth i hyn. Rydym hefyd wedi cael problemau sylweddol yn rheoli ein Pwyllgorau Ymchwilio. Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r problemau hyn cyn gynted ag y daeth y mater i'n sylw, a bydd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn cynnal Ymchwiliad i hyn. Byddwn yn ddi-os yn gweithredu unrhyw argymhellion a wnânt. Mae ein systemau wedi'u llesteirio gan ddeddfwriaeth aneffeithlon ac mae'n siomedig iawn nad oes Bil Seneddol ar reoleiddio proffesiynol wedi'i gynnwys yn yr amserlen ddeddfwriaethol, felly byddwn yn galw am orchymyn Adran 60 a fydd yn caniatáu newidiadau fel y gellir gwella rhai o'n prosesau a'u cysoni â phrosesau rheoleiddwyr proffesiynol eraill.

# Neges gan y Cadeirydd

parhad

Bydd angen i ni sicrhau ein bod ni'n gweithredu'r camau sy'n codi o adroddiad Francis yn llawn. Mae gan yr adroddiad hwn oblygiadau hirdymor i'r system reoleiddio gyfan ac mae wedi ysgogi diwylliant newydd o dryloywder ac arfer gorau sy'n gyfrifoldeb i bawb. Rydym felly yn llunio agenda newydd ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ystod 2014. Bydd angen i ni sicrhau bod y sefydliad yn canolbwyntio mwy ar gleifion fel y gallwn ddangos yn llawn bod popeth a wnawn yn cael ei yrru gan amcanion diogelu cleifion a gwella ansawdd gofal deintyddol.

Rydym yn datblygu panel cleifion ar-lein er mwyn cael mwy o adborth gan gleifion a'u barn ar ansawdd eu triniaeth, a pha wybodaeth maent ei hangen gan y rheoleiddiwr.

Mae angen i ni gael dealltwriaeth well o'r rhesymau dros y cynnydd sydyn hwn mewn cwynion, beth mae hyn ei ddweud am safonau gofal deintyddiol, a beth yw'r ffordd orau o reoli cangen o'n gwaith sy'n gostus iawn. Ers 2010, mae cwynion addasrwydd i ymarfer wedi cynyddu 110 y cant. Mae ein gwaith ymchwil diweddaraf gyda chleifion yn dangos bod 8 y cant wedi ystyried cwyno am weithiwr deintyddol proffesiynol. Rydym angen newidiadau cyfreithiol hefyd i foderneiddio cynllun addasrwydd i ymarfer sydd wedi dyddio er mwyn i ni weithio'n fwy effeithlon a lleihau costau.

Yn gynyddol, byddwn yn canolbwyntio ar atal a gwella ein gallu i asesu risgiau posibl. Ffactor allweddol fydd gweithio'n agosach gyda chomisiynwyr gwasanaethau a'r rheoleiddwyr systemau - y Comisiwn Ansawdd Gofal a'i gyrff cyfatebol yn y gweinyddiaethau datganoledig - gyda'r nod o fynd i'r afael â gwasanaethau annigonol. Yn sail i'r gwaith hwn bydd ein hymrwymiad i wrando ar gleifion a gweithwyr deintyddol proffesiynol ac ymgysylltu'n effeithiol gyda chyrff allweddol yn y sector deintyddol a'r llywodraeth.

Rwyf am ddiolch i'm cyd-aelodau newydd o'r Cyngor am eu cymorth yn ystod ein misoedd cyntaf o gydweithio. Hefyd, rwyf am ddiolch i holl staff y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'n partneriaid am y gwaith aruthrol maent wedi'i gyflawni dros y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau perfformiad ar draws y sefydliad. Y dasg o'n blaenau yw canolbwyntio ar strategaeth newydd fel ein bod yn glir am ein diben ac yn cyfrannu cymaint â phosibl i wella rheoleiddio deintyddol.

William Moyes

Cadeirydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1 Hydref 2013

# Cyflawni yn erbyn Cynllun Busnes 2013

# 3

## Cofrestru

| Amcan | Cyflawni yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Cynnal systemau i sicrhau bod y broses gofrestru yn gadarn, teg, amserol a chywir | Cofrestrwyd 8187 o ymgeiswyr o'r DU a thramor, gostyngiad o 8% o'r 8925 a gofrestrwyd yn y flwyddyn flaenorol. Rydym yn defnyddio, ac yn parhau i adolygu, cyfres o wiriadau cyn-gofrestru i sicrhau mai dim ond y rhai sy'n addas i ymarfer sy'n cael eu cofrestru. Mae gwiriadau'n cynnwys proses tri cham ar gyfer ceisiadau i leihau camgymeriadau, a gweithdrefnau ar gyfer gwirio geirda ar gyfer ceisiadau o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a chan ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol cymwysedig o dramor. |
| 2. Gwella ymarferoldeb a hygyrchedd y presenoldeb ar-lein | Lansiwyd platfform newydd i eGDC, sef ein gwefan ddiogel ar gyfer prosesu taliadau gan weithwyr cofrestredig ac ymgeiswyr yr Arholiad Cofrestru Tramor. Mae hyn yn cysylltu â'n platfform ar-lein gyda'r prif wefan a'n cyfleuster talu gyda'i gilydd am y tro cyntaf.<br><br>Caiff ei gyfuno gyda'n system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid. Gall gweithwyr cofrestredig dalu eu Ffi Cadw Blynyddol a diweddaru manylion personol yn gyflym a diogel ac mewn camau yn y dyfodol byddant yn gallu cyflwyno ceisiadau ar-lein. |
| 3. Ymgorffori prosesau cofrestru i'r system Microsoft Dynamics | Wrth symud ein cyfleuster cofrestru i system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd rydym yn elwa ar blatfform cofrestru a gwaith achos cyffredin sy'n ein galluogi i gynnal cywirdeb y data'n fwy effeithiol ar y cofrestri. |
| 4. Adolygu'r Arholiad Cofrestru Tramor (ORE) | Rydym yn mabwysiadu yr ORE er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu canlyniadau dysgu ein dogfen 'Paratoi ar gyfer Ymarfer'. Rydym wedi gwella system archebu'r arholiad hefyd. |
| 5. Adolygu trefniadau cofrestru tramor | Mae canllawiau newydd, cliriach ar gyfer cofrestru dros dro wedi'u gweithredu. Buom yn goruchwylio trefniadau prosesu didrafferth ceisiadau o Croatia, ar ôl i'r wlad honno ymuno â'r UE a buom yn paratoi ar gyfer gweithredu Cyfarwyddeb Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol 2005/36/EC yn 2016. |
| 6. Cyflwyno bwndeli electronig ar gyfer yr holl baneli cofrestru | Mae cyflwyno bwndeli dogfennau electronig ar gyfer pob Panel Asesu Cofrestru wedi symleiddio ein prosesau gan arwain at leihau costau, gwella diogelwch data a dosbarthu dogfennau yn fwy prydlon. |
| 7. Gwella systemau i sicrhau bod y gofrestr yn gyfredol a chywir | Mae cynnal gwiriadau ar weithwyr cofrestredig y mae eu cofrestriad wedi dod i ben yn helpu i gynnal dilysrwydd y gofrestr a sicrhau diogelwch i gleifion. Roedd Awst 2013 yn dynodi diwedd cylch datblygu proffesiynol parhaus cyntaf gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol ers cyflwyno cofrestru gorfodol yn 2008. Roedd 95% o'r rhai a gwblhaodd yn datgan eu bod wedi bodloni gofynion datblygu proffesiynol parhaus ac mae sampl o'r ffurflenni hyn wedi'u harchwilio. |

# Cyflawni yn erbyn Cynllun Busnes 2013

parhad

## Addasrwydd i Ymarfer – Gwaith achos

| Amcan | Cyflawni yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Cynnal systemau i sicrhau bod proses gwaith achos addasrwydd i ymarfer yn deg, amserol ac eglur | Cyflwynwyd mesurau newydd gyda'r nod o wella tegwch, prydlondeb a thryloywder, gan gynnwys:<br>• Canllawiau newydd i rai sy'n gwneud penderfyniadau<br>• Recriwtio uwch-weithwyr achos<br>• Cynlluniau achos i ffurfioli'r broses ymchwilio<br>• Ymchwilio'n well i gyhuddiadau bod technegwyr deintyddol yn gweithio y tu allan i'w cwmpas ymarfer. |
| 2. Gwella perfformiad gwaith achos addasrwydd i ymarfer | Cafwyd gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i'n Pwyllgor Ymchwilio ar gyfer achosion clinigol nad ydynt yn ddifrifol drwy ddefnyddio'r Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol a darparu cyngor clinigol yn gynnar. Cafwyd gwelliant mewn dangosydd allweddol, *Cwblhau cam ymchwilio achosion o fewn chwe mis i'w derbyn*, gyda'r targed o 90% wedi'i gyflawni (+/-1%) yn ystod y tri chwarter yn 2013. |
| 3. Cwblhau'r gwaith o ymgorffori prosesau addasrwydd i ymarfer o fewn system Microsoft Dynamics | Gwnaethom fwy o gynnydd i symud prosesau addasrwydd i ymarfer i'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid, gan ychwanegu gwaith y timau Cyfreithiol ac Adolygu Achosion. Mae hyn yn darparu platfform cyffredin sy'n helpu i gynnal cywirdeb y data ac yn golygu bod modd rheoli gwybodaeth yn fwy cynhwysfawr. |
| 4. Adolygu a gwella gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd ynghylch addasrwydd i ymarfer | Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'n gwybodaeth ar-lein i'r cyhoedd am addasrwydd i ymarfer, cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o'n taflen 'Sut i'n hysbysu ynghylch gweithiwr deintyddol proffesiynol' a ffurflen gwyno ar-lein. |
| 5. Bwrw ymlaen â newidiadau i ddeddfwriaeth Adran 60 i gyflwyno archwilwyr achosion i weithdrefnau addasrwydd i ymarfer | Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella ein gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer ac mae'n siom nad ydym wedi gallu darbwyllo'r Adran Iechyd i gyhoeddi Gorchymyn A60 i gyflwyno newidiadau allweddol.<br>Dywed yr Adran y bydd yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol ond mae'r amserlen ar gyfer hyn yn dal i fod yn aneglur. Yn y cyfamser, a chyda llwyth achosion cynyddol, rydym yn ystyried pa welliannau sy'n bosibl o fewn y fframwaith deddfwriaethol cyfredol. |
| 6. Parhau i fireinio gweithdrefnau gwaith achos er mwyn gostwng nifer y gohiriadau gan y Pwyllgor Ymchwilio yn gysylltiedig â rheoli achosion | Mae disgwyl i'r Canllawiau newydd ar Honiadau a gyhoeddir gennym a'r cynlluniau achos a gyflwynir yn ystod 2013 leihau'r risg o ohiriadau gan y Pwyllgor Ymchwilio. |

# 3

## Addasrwydd i Ymarfer – Gwaith achos

| Amcan | Cyflawni yn erbyn amcan |
|---|---|
| 7. Sicrhau cysondeb penderfyniadau | Gyda Chanllawiau Canlyniadau Dangosol ar gyfer y Pwyllgor Ymchwilio a'r Canllawiau ar Honiadau i weithwyr achos addasrwydd i ymarfer, rydym yn hyrwyddo cysondeb gwell yn y broses o wneud penderfyniadau. |
| 8. Parhau i fireinio prydlondeb hwyluso achosion trwy'r broses addasrwydd i ymarfer gan ddefnyddio egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir | Mae nifer o adolygiadau a gynhaliwyd yn 2013 wedi nodi ffyrdd lle gellir gwella prydlondeb ar wahanol gamau o'r broses. |
| 9. Cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ar y broses addasrwydd i ymarfer bresennol | Dangosodd asesiad llawn yn 2013 ein bod ni'n cydymffurfio i raddau helaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010, gydag argymhelliad i wella'r gwaith o gasglu data am weithwyr cofrestredig a hysbyswyr fel rhan o'r broses. Bydd hyn yn dechrau yn 2014. |

## Y pwyllgor ymchwilio

| Amcan | Cyflawni yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Cyflwyno bwndelu electronig ar gyfer y Pwyllgor Ymchwilio | Cyflwynwyd system o fwndelu dogfennau electronig yn gynnar yn 2013 er mwyn symleiddio'r broses a gwella diogelwch data. |
| 2. Gwneud gwelliannau i brosesau er mwyn gwella ansawdd a rheoli risg | Bydd Canllawiau newydd ar Honiadau, sy'n cynnwys geirfa, o fudd i'r Pwyllgor Ymchwilio a rhanddeiliaid allanol. |
| 3. Gweithredu proses adolygu datblygiadau'r Pwyllgor Ymchwilio | Cwblhawyd cylch blwyddyn gyfan o'r Broses Adolygu Datblygiadau a chynhaliwyd tri diwrnod hyfforddi a thri segment hyfforddiant electronig i aelodau. |
| 4. Cynnal systemau i sicrhau bod cwynion a gyfeirir at y Pwyllgor Ymchwilio yn cael eu trin mewn ffordd gadarn, deg, eglur ac amserol | Gwelodd y Pwyllgor Ymchwilio gynnydd o 47% yn yr achosion a atgyfeiriwyd, ond cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion gan hysbyswyr neu drydydd partïon ynghylch diffyg eglurder penderfyniadau'r Pwyllgor Ymchwilio. Ym mis Mai 2014, cyhoeddodd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ei fwriad i gynnal ymchwiliad i brosesau rheoli a chefnogi y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Byddwn yn cydweithredu'n llawn gyda'r ymchwiliad. Mae rhagor o wybodaeth ar wefan yr Awdurdod. |
| 5. Gweithredu system Microsoft Dynamics ar gyfer y Pwyllgor Ymchwilio | Mae'r gwaith o symud i'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid wedi dechrau a bwriedir ei weithredu'n llawn yn 2014. |
| 6. Adolygu/gwella gwybodaeth y Pwyllgor Ymchwilio ar gyfer y cyhoedd | Cafodd ein hymrwymiad i ddarparu gwybodaeth gywir a thryloyw ei gefnogi wrth i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau ac i holl broffiliau'r aelodau gael eu diweddaru. |
| 7. Gweithredu Canlyniadau Dangosol cytûn ar gyfer y Pwyllgor Ymchwilio | Cyflwynwyd Canllawiau ar Ganlyniadau Dangosol yn dilyn peilot llwyddiannus. Bwriedir darparu diweddariad ôl-weithredu o'r canllawiau yn 2014. |

# Cyflawni yn erbyn Cynllun Busnes 2013

parhad

## Addasrwydd i Ymarfer - Cyfreithiol

| Amcan | Cyflawni yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Sefydlu tîm cyfreithiol mewnol, sy'n gallu ymdrin â 25% o'r achosion addasrwydd i ymarfer a atgyfeirir i Bwyllgor Arferion gan y Pwyllgor Ymchwilio | Drwy sefydlu tîm Gwasanaethau Erlyn Cyfreithiol Mewnol sy'n ymchwilio, paratoi a chyflwyno achosion a atgyfeirir at Bwyllgor Ymarfer, rydym yn ceisio darparu gwasanaethau cyfreithiol o ansawdd uchel o fewn terfynau amser caeth ac ar gost is i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol na thrwy ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol allanol. Erbyn mis Rhagfyr, roedd y tîm yn ymdrin â thua 35% o achosion a atgyfeiriwyd i wrandawiad gan y Pwyllgor Ymchwilio. |
| 2. Erlyn 24 achos newydd o droseddau sy'n mynd yn groes i Ddeddf Deintyddion 1984 | Erlynodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 23 o droseddau. Cafodd nifer o achosion eu gohirio wrth aros am ddyfarniad yr Uchel Lys ar a oedd gwynnu dannedd yn ymarfer deintyddol a oedd yn groes i'r Ddeddf. Cadarnhaodd yr Uchel Lys safbwynt y Cyngor Deintyddol Cyffredinol mai dim ond deintydd all gwblhau gwaith gwynnu dannedd yn gyfreithlon neu therapydd deintyddol, hylenydd deintyddol neu dechnegydd deintyddol clinigol sy'n gweithio yn unol â chyfarwyddiadau deintydd. |
| 3. Rheoli ein tri darparwr cyfreithiol allanol i baratoi achosion i'r safonau gofynnol er mwyn sicrhau bod gwrandawiadau terfynol yn dechrau o fewn 9 mis yn dilyn atgyfeirio gan y Pwyllgor Ymchwilio | Mae gan y tri Rheolwr Achosion a Chontractau sydd newydd eu penodi gyfrifoldeb i reoli darparwyr cyfreithiol allanol a darparu cyfarwyddyd ar achosion contract allanol. Mae angen esboniad yn syth os bydd achos yn cael ei restru ar gyfer gwrandawiad y tu allan i'r cyfnod o 9 mis, ac rydym yn herio pan na fydd yr ymchwiliad yn cael ei symud ymlaen fel y dylai. |

## Gwrandawiadau

| Amcan | Cyflawni yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Adleoli gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer yn allanol o fis Ebrill 2013 tra bydd gwaith adeiladu yn digwydd | Cynhaliwyd pob gwrandawiad mewn lleoliadau allanol o ddiwedd Mawrth 2013. |
| 2. Gostwng nifer y gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer o 5 i 4 | Diwygiwyd yr amcan yn ystod 2013, gyda phump o wrandawiadau wedi'u trefnu yr un pryd yn ystod y flwyddyn er mwyn bodloni galw cyson a chynyddol, sy'n barhaus. |

# 3

## Rhagoriaeth a chydymffurfio gweithredol

| Amcan | Cyflawni yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Cynnal rhaglen archwilio rheoleiddiol yn chwarterol | Mae ein Tîm Cydymffurfiaeth yn cynnal archwiliadau o drefniadau gweinyddol a gwneud penderfyniadau, gan gynghori staff ar risg a darparu canllawiau. |
| 2. Gwella trefniadau archwilio presennol | Mae gennym ddull safonol o archwilio ein gwaith gweinyddol sy'n canolbwyntio ar bedwar prif faes: cywirdeb, cydymffurfio â gweithdrefnau a chanllawiau, gwasanaeth cwsmeriaid a phrydlondeb. Mae trefn samplu seiliedig ar risg yn defnyddio methodolegau ystadegol cadarn. |
| 3. Adolygu gweithredoedd archwilio | Trwy ein harchwiliadau rydym yn nodi gwelliannau, gan adrodd yn ôl i gydweithwyr yn y timau perthnasol fel y gallant gyflwyno newidiadau angenrheidiol. |
| 4. Sefydlu tîm rheoli gwybodaeth yn yr uned gydymffurfiaeth | Darperir gwybodaeth reoli drwy adrodd am risgiau gweithredol yn barhaus i'r Tîm Rheoli Gweithredol a'r Cyngor. |

## Polisi

| Amcan | Cyflawni yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Cwblhau'r Adolygiad Safonau | Cyflwynwyd Safonau newydd gyda'r nod o godi a chynnal ansawdd gofal deintyddol. Anfonwyd copïau o'r Safonau at bob gweithiwr cofrestredig ac rydym wedi eu hyrwyddo'n eang ledled y pedair gwlad. Neilltuwyd adran newydd ar ein gwefan ar gyfer y Safonau gyda'r nod o helpu gweithwyr cofrestredig i ddeall sut i ddefnyddio'r safonau wrth ymarfer. |
| 2. Cwblhau'r prosiect Mynediad Uniongyrchol | Cwblhawyd y prosiect ym mis Mawrth 2013 a chymeradwyodd y Cyngor argymhellion y dylai cleifion gael mynediad uniongyrchol i weithwyr gofal deintyddol proffesiynol penodol. |
| 3. Diweddaru'r Cwmpas Ymarfer yn dilyn penderfyniad ar Fynediad Uniongyrchol | Cafodd ein canllawiau ar Gwmpas Ymarfer eu diweddaru yn sgil y penderfyniad ar Fynediad Uniongyrchol a'r canllawiau newydd a gyhoeddwyd ar ein gwefan. |
| 4. Ymgymryd â rhaglen o waith polisi i wella rheoleiddio | Cwblhawyd cam cyntaf adolygiad polisi y Ffi Cadw Blynyddol a bydd ymgynghoriad yn dilyn yn 2014.<br>Dechreuwyd paratoi ar gyfer gweithredu'r Gyfarwyddeb UE ddiwygiedig ar Gydgydnabod Cymwysterau Proffesiynol. Dechreuwyd ar waith i nodi a oes unrhyw risgiau i gleifion gan y rhai sydd newydd ddechrau ymarfer. Nid oedd y dystiolaeth a gasglwyd yn dangos unrhyw risgiau pendant i ddiogelwch cleifion mewn perthynas â deintyddion neu weithwyr gofal deintyddol proffesiynol newydd gofrestru. |

# Cyflawni yn erbyn Cynllun Busnes 2013

parhad

## Ail-ddilysu

| Amcan | Cyflawni yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Datblygu cynllun ar sail model ail-ddilysu 3 cham | Mae cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus gwell yn cael ei ddatblygu fel paratoad pwysig ar gyfer ail-ddilysu maes o law. Cwblhawyd rhagor o waith i wella ein proses o nodi a deall risgiau mewn deintyddiaeth yn 2013. |
| 2. Ymgymryd â'r adolygiad ar ddatblygiad proffesiynol parhaus a chyfrannu at baratoi ar gyfer cyflwyno ail-ddilysu | Roedd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus gwell yn dangos cefnogaeth sylweddol i'r cynllun. Gan weithio gyda'r Adran Iechyd yn Lloegr, paratowyd rheolau newydd ar gyfer cyflwyno'r cynllun newydd yn 2014.<br><br>Galwodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar ddarparwyr DPP i bennu safonau diwydiant. Mae canllawiau diwygiedig ar DPP hefyd yn ceisio annog ansawdd gwell. |

## Materion Cyhoeddus

| Amcan | Cyflawni yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Datblygu a gweithredu strategaeth newydd ar gyfathrebu a chysylltiadau â rhanddeiliaid | Adolygwyd ein strategaeth cysylltiadau rhanddeiliaid i sicrhau mwy o effeithiolrwydd ac ehangder ar â draws y bedair wlad a sefydliadau'r UE. |
| 2. Gwella cyfathrebu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd | O ganlyniad i newidiadau allweddol, dylai defnyddwyr allu defnyddio'r wefan yn haws a gweld ei bod yn fwy cynhwysfawr. Cafodd mentrau a gwasanaethau allweddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, sef y Safonau newydd, Mynediad Uniongyrchol, erlyniadau ymarfer anghyfreithlon llwyddiannus a'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol, eu cyfathrebu drwy e-bost, y cyfryngau cymdeithasol a ffilm. |

## Ymchwil

| Amcan | Amcan Cyflawni yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Datblygu strategaeth ymchwil i ddarparu ymchwil a thystiolaeth i gefnogi'r mentrau polisi a gwerthuso perfformiad | Comisiynwyd ein harolwg cleifion a chyhoeddus blynyddol a'r arolwg gweithwyr cofrestredig blynyddol. Mae ein sail tystiolaeth ar gyfer polisi wedi tyfu trwy waith ymchwil a gwerthuso cyhoeddus, cleifion a gweithwyr cofrestredig.<br><br>Roedd y meysydd polisi a wnaeth elwa yn cynnwys: adolygiad o Fynediad Uniongyrchol, Sicrwydd Parhaus o addasrwydd i ymarfer, adolygiad Newid i Ymarfer Annibynnol, Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol a chanllawiau diwygiedig ar DPP. |

# 3

## Sicrhau Ansawdd Addysg a Hyfforddiant

| Amcan | Cyflawni yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Datblygu a gweithredu systemau sicrhau ansawdd integredig newydd ar gyfer rheoli'r tîm deintyddol | Fe wnaethom barhau i ddatblygu systemau a phrosesau i allu sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant yn well yn cynnwys gwella'r wybodaeth sydd ar gael am godi pryderon am raglenni addysg, a graddnodi dyfarniadau arolygu i sicrhau cysondeb. |
| 2. Cyflwyno rhaglen o arolygu addysg a hyfforddiant deintyddol | Yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13, cynhaliwyd wyth arolygiad o raglenni deintyddiaeth (rhaglenni BDS/BChD) ac wyth arolygiad o raglenni DPP ac mae'r adroddiadau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. |
| 3. Ymchwilio a gwneud argymhellion ar hyfforddiant cyn cofrestru | Cynhaliwyd adolygiad o'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â gweithwyr cofrestredig newydd.<br><br>Nid oedd y dystiolaeth a oedd ar gael yn ddigon i nodi bod deintyddion neu weithwyr gofal deintyddol proffesiynol newydd gofrestru yn achosi unrhyw risgiau pendant i ddiogelwch cleifion, er y bydd gwaith monitro pellach yn cael ei wneud yn 2014. |

## Y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol

| Amcan | Cyflawni yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Datblygu rôl y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | Mae gwefan y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol nawr yn cynnwys gwybodaeth well am y broses i gleifion a gweithwyr deintyddol proffesiynol a manylion cyfeirio clir i sefydliadau eraill pe na bai'r gwasanaeth hwn yn gallu helpu. Bydd hyn yn cael ei hyrwyddo ymhellach yn 2014 er mwyn codi ymwybyddiaeth. |

# Cyflawni yn erbyn Cynllun Busnes 2013

parhad

## Llywodraethu

| Amcan | Cyflawni yn erbyn amcan |
|---|---|
| 1. Rheoli recriwtio a sefydlu aelodau'r Cyngor newydd | Yn unol â gorchymyn cyfansoddiad newydd i leihau maint y Cyngor o 24 aelod i 12 aelod (6 gweithiwr cofrestredig a 6 aelod lleyg) a chael Cadeirydd penodedig, cynhaliwyd ymarfer recriwtio ledled y DU, gan gael cyngor gan ymgynghorydd arbenigol ym maes Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.<br><br>Rhoddodd cynghorydd annibynnol sicrwydd i'r Cyngor a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol, ar ôl adolygu ein dull, a chytuno ei fod yn bodloni eu pedair egwyddor o broses benodi dda.<br><br>Cymeradwyodd y Cyfrin Gyngor benodiad y Cadeirydd newydd a'r deg aelod o'r Cyngor i ddechrau a chwblhawyd y broses recriwtio pan benodwyd gweithiwr cofrestredig Cymraeg.<br><br>Derbyniodd aelodau'r Cyngor bedair sesiwn sefydlu hanner diwrnod yn syth cyn ac ar ôl dod i'r swydd. Mae rhaglen sefydlu barhaus wedi'i threfnu ar gyfer 2014. |
| 2. Gweithio gyda Chomisiwn y Gyfraith a rhanddeiliaid i ddatblygu deddfwriaeth newydd | Ymatebodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn llawn i'r ymgynghoriad gan Gomisiwn y Gyfraith yn haf 2012. Ers hynny mae'r Cyngor wedi parhau i weithio gyda'r Comisiwn a rhanddeiliaid perthnasol ar ddatblygu deddfwriaeth i reoleiddio'r proffesiwn deintyddol. |
| 3. Recriwtio 70 o banelwyr newydd ar addasrwydd i ymarfer | Cafodd y broses recriwtio a dethol ei rheoli gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol mewn partneriaeth ag asiantaeth recriwtio, er mwyn cynnwys deintyddion, gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn ogystal ag aelodau lleyg. |

# Adroddiad ystadegau rheoleiddio

# 4

## Cofrestru

Rhaid i bob deintydd a gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol sy'n ymarfer gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae'n rhaid i bawb sy'n ymuno â'r gofrestr ddangos bod ganddynt y cymwysterau gofynnol neu lwyddo mewn asesiad. Rhaid iddynt hefyd fodloni'r gofynion iechyd a chymeriad er mwyn bod yn addas i ymarfer fel aelod o dîm deintyddol.

Gellir gwneud cais i ymuno â'r gofrestr mewn sawl ffordd. Rhaid i ymgeisydd ddangos bod ganddo un o'r canlynol:

- cymhwyster cydnabyddedig o'r DU;
- cymhwyster cydnabyddedig o Ewrop;
- cymhwyster cydnabyddedig o'r tu allan i Ewrop;
- asesiad o addasrwydd i gofrestru gan banel asesu sgiliau a gwybodaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (yn achos unigolion cymwys o'r tu allan i Ewrop ac sydd â statws unigolyn esempt); neu
- wedi llwyddo yn yr Arholiad Cofrestru Tramor (ar gyfer deintyddion o'r tu allan i Ewrop sydd wedi cymhwyso dramor nad ydynt yn elwa ar hawliau cymunedol y gellir eu gorfodi).

### Rhestri arbenigwyr

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol hefyd yn cadw rhestri o weithwyr cofrestredig sy'n ddigon cymwys neu brofiadol i'w galw eu hunain yn arbenigwyr mewn meysydd deintyddol penodol.

### Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Er mwyn rhoi hyder i'r cyhoedd bod pob gweithiwr deintyddol proffesiynol yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf, mae gofyn i'r rhai sydd wedi cofrestru gyflawni gweithgareddau datblygu proffesiynol parhaus.

# Adroddiad ystadegau rheoleiddio

parhad

**1. Cyfanswm yr unigolion ar y Gofrestr Deintyddion a'r Gofrestr Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol ar ddiwedd 2013, wedi'u rhannu yn ôl deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol**

| Grŵp cofrestru | Cyfanswm y bobl |
|---|---|
| Deintydd | 40,423 (39%) |
| Gweithiwr Gofal Deintyddol Proffesiynol | 63,027 (61%) |
| **Cyfanswm** | **103,450** |


Mae'r tabl hwn yn dangos faint o bobl sydd ar y gofrestr. Dim ond unwaith y caiff unigolion sydd â mwy nag un teitl, er enghraifft, hylenydd deintyddol sydd hefyd yn therapydd deintyddol, ei gyfrif yn y tabl hwn.

**2. Cyfanswm yr unigolion ar y Gofrestr Deintyddion a'r Gofrestr Gweithwyr Gofal Proffesiynol ar ddiwedd 2013, wedi'u rhannu yn ôl rhyw**

| Grŵp cofrestru | Cyfanswm y bobl | Dynion | Menywod |
|---|---|---|---|
| Deintydd | 40,423 (39%) | 22,197 (79%) | 18,226 (24%) |
| Deintyddol Proffesiynol | 63,027 (61%) | 5,770 (21%) | 57,257 (76%) |
| **Cyfanswm** | **103,450** | **27,967** | **75,483** |

**3. Cyfanswm yr unigolion ar y Gofrestr Deintyddion a'r Gofrestr Gweithwyr Gofal Proffesiynol ar ddiwedd 2013, wedi'u rhannu yn ôl teitl**

| Grŵp cofrestru | Cyfanswm |
|---|---|
| Deintydd | 40,423 (38.0%) |
| Technegydd Deintyddol Clinigol | 234 (0.2%) |
| Hylenydd Deintyddol | 6,333 (5.9%) |
| Nyrs Ddeintyddol | 50,647 (47.6%) |
| Technegydd Deintyddol | 6,320 (5.9%) |
| Therapydd Deintyddol | 2,230 (2.1%) |
| Therapydd Orthodonteg | 323 (0.3%) |
| **Cyfanswm** | **106,510** |





Mae'r tabl hwn yn dangos cyfanswm pob math o weithiwr deintyddol proffesiynol ar y gofrestr. Caiff unigolion sydd â mwy nag un teitl ei gyfrif unwaith ar gyfer pob teitl sydd ganddo, felly mae'r cyfanswm yn y tabl yn fwy na chyfanswm y bobl a gyfrifwyd yn nhabl un.

# 4

**4. Ychwanegiadau i'r Gofrestr yn 2013, wedi'u rhannu yn ôl teitl**


| Grŵp cofrestru | Cyfanswm |
|---|---|
| Deintydd | 2,211 |
| Technegydd Deintyddol Clinigol | 1 |
| Hylenydd Deintyddol | 304 |
| Nyrs Ddeintyddol | 5,281 |
| Technegydd Deintyddol | 286 |
| Therapydd Deintyddol | 234 |
| Therapydd Orthodonteg | 2 |
| **Cyfanswm** | **8,319** |




**5. Deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol ar y gofrestr ddiwedd 2013**

a) Deintyddion, yn ôl eu lleoliad cymhwyso

| Lleoliad cymhwyso | Cyfanswm |
|---|---|
| Wedi cymhwyso yn y DU | 29,080 (72%) |
| Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd | 6,827 (17%) |
| Arholiad Cofrestru Tramor y DU | 2,630 (6%) |
| Wedi cymhwyso dramor | 1,886 (5%) |
| **Cyfanswm** | **40,423** |




# Adroddiad ystadegau rheoleiddio

parhad

b) Gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol, yn ôl teitl a lleoliad cymhwyso

| Teitl | Wedi cymhwyso yn y DU* | Wedi cymhwyso y tu allan i'r DU |
|---|---|---|
| Technegydd Deintyddol Clinigol | 234 | 0 |
| Hylenydd Deintyddol | 6,013 | 320 |
| Nyrs | 50,496 | 151 |
| Technegydd Deintyddol | 6,131 | 189 |
| Therapydd Deintyddol | 2,215 | 15 |
| Therapydd Orthodonteg | 322 | 1 |
| **Cyfanswm** | **65,411** | **676** |





*Yn cynnwys pobl a ymunodd â chofrestr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o ganlyniad i brofiad a wiriwyd, cymhwysedd a wiriwyd neu drosglwyddiad o gofrestri gwirfoddol ar adeg y trefniadau pontio wrth sefydlu cofrestr y gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol.

### 6. Deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol a ychwanegwyd i'r gofrestr yn 2013, yn ôl lleoliad cymhwyso

a) Deintyddion, yn ôl lleoliad cymhwyso


| Lleoliad cymhwyso | Cyfanswm |
|---|---|
| Wedi cymhwyso yn y DU | 1,278 (58%) |
| Wedi cymhwyso yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd | 666 (30%) |
| Arholiad Cofrestru Tramor y DU | 194 (9%) |
| Wedi cymhwyso dramor | 73 (3%) |
| **Cyfanswm** | **2,211** |



# 4


b) Gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol, yn ôl teitl a lleoliad cymhwyso


| Teitl | Wedi cymhwyso yn y DU* | Wedi cymhwyso y tu allan i'r DU |
|---|---|---|
| Technegydd Deintyddol Clinigol | 1 | 0 |
| Hylenydd Deintyddol | 275 | 29 |
| Nyrs Ddeintyddol | 5,254 | 27 |
| Technegydd Deintyddol | 244 | 42 |
| Therapydd Deintyddol | 228 | 6 |
| Therapydd Orthodonteg | 2 | 0 |
| **Cyfanswm** | **6,004** | **104** |




**7. Deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol a ychwanegwyd i'r Gofrestr yn 2013, yn ôl rhyw**

| Grŵp cofrestru | Cyfanswm | Dynion | Menywod |
|---|---|---|---|
| Deintyddion | 2,211 | 954 (43%) | 1,257 (57%) |
| Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol* | 5,976 | 315 (5%) | 5,661 (95%) |
| **Cyfanswm** | **8,187** | **1,269** | **6,918** |




* Dim ond unwaith y caiff pobl sydd â chofrestriad deuol eu cyfrif.

# Adroddiad ystadegau rheoleiddio

parhad

**8. Manylion y Rhestri Arbenigol fel ag yr oeddynt ar ddiwedd 2013:**

| **Arbenigedd** | **Nifer** |
|---|---|
| Radioleg Ddeintyddol a'r Genau a'r Wyneb | 25 (0.58%) |
| Iechyd Cyhoeddus Deintyddol | 119 (2.74%) |
| Endodonteg | 260 (5.99%) |
| Patholeg y Geg a'r Genau a'r Wyneb | 32 (0.74%) |
| Meddygaeth y Geg | 76 (1.75%) |
| Microbioleg y Geg | 7 (0.16%) |
| Llawdriniaeth y Geg | 765 (17.63%) |
| Orthodonteg | 1,383 (31.87%) |
| Deintyddiaeth Baediatreg | 247 (5.69%) |
| Periodonteg | 343 (7.91%) |
| Prosthodonteg | 440 (10.14%) |
| Deintyddiaeth Adferol | 317 (7.31%) |
| Deintyddiaeth Gofal Arbennig | 325 (7.49%) |
| **Cyfanswm** | **4,339** |

# 4

## Addasrwydd i Ymarfer

Rhaid i ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol fodloni gofynion arbennig wrth gofrestru yn y lle cyntaf ac yna'n barhaus trwy gydol eu gyrfaoedd er mwyn ymarfer. Os bydd eu haddasrwydd i ymarfer yn cael ei gwestiynu yn sgil cwyn, collfarn neu rybudd, mae'n bosibl y byddant yn gorfod wynebu prosesau addasrwydd i ymarfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae pob cwyn a hysbysiad addasrwydd i ymarfer yn cael eu hadolygu yn y cam brysbennu i ddechrau. Mae materion sydd angen asesiad pellach yn symud ymlaen i gam ymchwilio. Bydd materion sy'n awgrymu nad yw rhywun yn addas i ymarfer yn cael eu hatgyfeirio i banel Pwyllgor Ymchwilio.

Mae panel y Pwyllgor Ymchwilio yn cynnwys gweithwyr cofrestredig a lleygwyr, a benodwyd trwy broses sy'n annibynnol ar reolwyr gweithredol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gallai Pwyllgor Ymchwilio benderfynu nad oes angen gweithredu pellach neu fod llythyr cynghori neu rybudd yn ddigonol.

Mewn achosion a allai fod yn fwy difrifol, gall panel y Pwyllgor Ymchwilio atgyfeirio'r mater i un o'r tri Phwyllgor Ymarfer: y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol; y Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol; neu'r Pwyllgor Iechyd am wrandawiad ffurfiol. Bydd gweithiwr cofrestredig a atgyfeirir i Bwyllgor Ymarfer yn ymddangos gerbron panel annibynnol o aelodau lleyg a chofrestredig mewn gwrandawiad ffurfiol. Bydd gan y Cyngor a'r gweithiwr cofrestredig yr hawl i gael cynrychiolaeth gyfreithiol.

Yn ystod pob cam o'n gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer, gellir atgyfeirio mater i'r Pwyllgor Gorchmynion Interim a all atal cofrestriad gweithwyr cofrestredig neu osod amodau ar eu statws cofrestru wrth aros am adolygiad.

Derbyniwyd cyfanswm o **2,990** o achosion yn 2013, o gymharu â 2,278 yn 2012 – cynnydd o 31%.


**Nifer yr achosion a gafodd eu cau neu eu hatgyfeirio ym mhob cam o'r gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer:**

| | |
|---|---|
| **Brysbennu** | **2,838**<br>(Nifer yr achosion yn y cam brysbennu a gafodd eu cau neu eu hatgyfeirio i'w hasesu) |
| **Asesu** | **1,236**<br>(Nifer yr achosion yn y cam asesu a gafodd eu cau neu eu hatgyfeirio i'r Pwyllgor Ymchwilio) |
| **Pwyllgor Ymchwilio** | **535 penderfyniad**<br>(Nifer yr achosion yn y Pwyllgor Ymchwilio a gafodd eu cau neu eu hatgyfeirio i Bwyllgor Ymarfer) |
| **Pwyllgor Ymarfer** | **289**<br>(Nifer yr achosion a gafodd eu hatgyfeirio o'r Pwyllgor Ymchwilio i Bwyllgor Ymarfer) D.S. Gall gweithwyr cofrestredig unigol gael eu cyfrif fwy nag unwaith. O'r 289, aeth 131 ymlaen i'r Pwyllgor Gorchmynion Interim.) |
| **Pwyllgor Gorchmynion Interim** | **131**<br>(Yn ogystal ag atgyfeirio i Bwyllgor Ymarfer, gall achosion gael eu hatgyfeirio o'r Pwyllgor Ymchwilio i'r Pwyllgor Gorchmynion Interim.) |

# Adroddiad ystadegau rheoleiddio

parhad

### Canran yr achosion Addasrwydd i Ymarfer a gafodd eu brysbennu o fewn targed o 14 diwrnod





| | Ch1 2013 | Ch2 2013 | Ch3 2013 | Ch4 2013 |
|---|---|---|---|---|
| Canran o fewn y targed | 77.11% | 69.12% | 64.65% | 46.93% |

Yn 2013, o'r achosion a gafodd eu hadolygu yn y cam brysbennu, nodwyd 1240 achos y gellid eu cau heb ymchwiliad pellach gan alluogi'r Cyngor i ganolbwyntio adnoddau ar achosion a oedd yn debygol o arwain at gyhuddiad o ymarfer diffygiol yn erbyn gweithiwr cofrestredig.

Ar gyfartaledd, derbyniodd 64% o'r achosion a adolygwyd yn y cam brysbennu benderfyniad cychwynnol o fewn 14 diwrnod. Mae hyn er gwaethaf y cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd yn 2013.

### Canran yr achosion ymchwilio Addasrwydd i Ymarfer a gwblhawyd o fewn y targed o 6 mis o'r dyddiad derbyn





| | Ch1 2013 | Ch2 2013 | Ch3 2013 | Ch4 2013 |
|---|---|---|---|---|
| Canran o fewn y targed | 78.78% | 90.77% | 89.54% | 88.87% |

# 4

Mae perfformiad o ran cwblhau achosion yn y cam ymchwilio o fewn y targed o 6 mis o'r dyddiad derbyn wedi bod yn gyson uchel gydol 2013. Mae hyn er gwaethaf y cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd.

Cafodd y targed a bennwyd ar ddiwedd 2012, sef cwblhau 90% o'r achosion o fewn yr amserlen o 6 mis, ei gyflawni eleni. Bydd gwaith yn parhau i gynnal hyn yn 2014.

**Canran yr achosion Addasrwydd i Ymarfer a dderbyniodd wrandawiad cychwynnol o fewn 9 mis o'u hatgyfeirio gan y Pwyllgor Ymchwilio**




| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Canran o fewn y targed | 50% | 25.93% | 60.87% | 60% |

Yn 2013, yn unol â'r cynnydd sylweddol o achosion Addasrwydd i Ymarfer a dderbyniwyd, mae nifer yr achosion a gafodd eu hatgyfeirio o'r Pwyllgor Ymchwilio wedi codi hefyd.

Ar ddiwedd 2013, roedd nifer yr achosion a oedd yn aros am wrandawiad cyntaf wedi cynyddu 34% (o 125 achos yn Rhagfyr 2012 i 168 achos yn Rhagfyr 2013).

Roedd nifer yr achosion byw a oedd yn aros am wrandawiad cyntaf ac a fethodd y targed naw mis yn 24% o achosion ar ddiwedd Rhagfyr 2013, gwelliant sylweddol ar y flwyddyn flaenorol pan roedd yn 45%.


Yn ail hanner y flwyddyn, cafwyd gwelliant sylweddol yn nifer yr achosion a gyrhaeddodd y targed naw mis ar gyfer symud i wrandawiad o'r Pwyllgor Ymchwilio, gyda thros 60% yn cyrraedd y targed yn nau chwarter olaf y flwyddyn. Yn ogystal, derbyniodd cyfran sylweddol o achosion wrandawiad cychwynnol rhwng 10 a 12 mis ar ôl cael eu hatgyfeirio o'r Pwyllgor Ymchwilio yn 2013.

# Adroddiad ystadegau rheoleiddio

parhad

## Pwyllgor Gorchmynion Interim (IOC)

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm gwrandawiadau yn 2013** | **209** |
| **(132 cychwynnol / 77 adolygiad)** | |
| Cyflwyno gorchymyn gwahardd interim | 34 |
| Cyflwyno amodau interim | 33 |
| Adnewyddu gorchymyn gwahardd interim | 37 |
| Adnewyddu amodau interim | 36 |
| Dim gorchymyn | 57 |
| Codi gwaharddiad / amodau | 4 |
| Gohirio | 8 |





## Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol (PPC)

| | |
|---|---|
| **Nifer yr achosion y gwrandawyd arnynt yn 2013** | **4 (deintyddion i gyd)** |

## Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol (PCC)

| | |
|---|---|
| **Nifer yr achosion y gwrandawyd arnynt yn 2013** | **129** |
| Nifer yr achosion yn ymwneud â deintyddion | 111* |
| Nifer yr achosion yn ymwneud â Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol: 13 nyrs ddeintyddol, 4 technegydd deintyddol ac 1 hylenydd/therapydd | 18 |


* cafodd 1 gweithiwr cofrestredig ddau wrandawiad




## Pwyllgor Iechyd

| | |
|---|---|
| **Nifer yr achosion y gwrandawyd arnynt yn 2013** | **26** |
| Nifer yr achosion yn ymwneud â deintyddion | 21** |
| Nifer y gwrandawiadau yn ymwneud â Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol: 3 nyrs ddeintyddol a 2 dechnegydd deintyddol | 5 |

** cafodd 1 gweithiwr cofrestredig ddau wrandawiad




| | |
|---|---|
| **Gwrandawiadau a ohiriwyd y gwrandawyd arnynt yn rhannol ar ddiwedd y flwyddyn** | **12*** ** |

*** Roedd un achos yn ymwneud â 3 gweithiwr cofrestredig

# 4

## Materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol/Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol

| Nifer yr achosion o faterion* | |
|---|---|
| Triniaeth wael | 69 |
| Gwael am gadw cofnodion | 34 |
| Methu cael caniatâd/egluro triniaeth | 21 |
| Twyll/anonestrwydd | 20 |
| Rheoli ymarfer gwael yn cynnwys ymdrin â chwynion | 16 |
| Methu cymryd radiograffau priodol | 16 |
| Materion presgripsiwn | 16 |
| Methu cydweithredu â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol | 15 |
| Ymddygiad personol | 9 |
| Methu cofnodi hanes meddygol a/neu ddeintyddol | 9 |
| Collfarn neu rybudd - arall | 8 |
| Collfarn neu rybudd – dwyn/twyll | 7 |
| Collfarn neu rybudd - ymosodiad | 7 |
| Collfarn neu rybudd – alcohol neu gyffuriau | 6 |
| Rheoli croes-heintiad | 6 |
| Ymosodiad anweddus neu ymddygiad rhywiol amhriodol | 5 |
| Dim yswiriant indemniad proffesiynol | 5 |
| Rheswm dros driniaeth (GIG/preifat) ddim yn glir | 4 |
| Gweithio y tu allan i gwmpas ymarfer | 3 |
| Materion llonyddu | 3 |
| Torri cyfrinachedd y claf | 3 |
| Hysbysebu camarweiniol | 3 |
| Trin cleifion pan nad yw ar y rhestr perfformwyr | 2 |
| Methu canser y geg | 2 |
| Caniatáu nyrs ddeintyddol nad yw wedi cofrestru, i weithio | 1 |
| Gweithio fel nyrs ddeintyddol heb gofrestru ar ôl 2008 | 1 |

* Gall achosion gynnwys mwy nag un mater yn aml – mae'r ffigurau hyn yn rhoi cipolwg, gan adlewyrchu'r prif bryderon ac nid pob cyhuddiad unigol

## Canlyniadau Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol

| | |
|---|---|
| Amodau | 1 |
| Amharu ar Addasrwydd i Ymarfer – cerydd | 2 |
| Heb amharu ar Addasrwydd i Ymarfer | 1 |

# Adroddiad ystadegau rheoleiddio


parhad

### Canlyniadau Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

| | |
|---|---|
| Dileu gyda gwaharddiad yn syth | 17 |
| Dileu | 2 |
| Gwahardd | 17 |
| Gwahardd yn syth | 10 |
| Gwahardd am gyfnod amhenodol | 1 |
| Amodau | 23 |
| Amharu ar Addasrwydd i Ymarfer – cerydd | 13 |
| Achos wedi'i gwblhau ar ôl gwaharddiad / amodau | 20 |
| Heb amharu ar Addasrwydd i Ymarfer neu ddim achos o gamymddwyn | 23 |
| Dim achos i'w ateb | 1 |
| Yr erlyniad heb gyflwyno tystiolaeth | 1 |
| Y canlyniad yn ddi-rym yn sgil manylyn technegol cyfreithiol | 1 |

### Canlyniadau Pwyllgor Iechyd

| | |
|---|---|
| Gwaharddiad | 7 |
| Gwaharddiad am gyfnod amhenodol | 5 |
| Amodau | 8 |
| Dim amhariad difrifol (mwyach) | 6 |




### Ceisiadau adfer

| | |
|---|---|
| Nifer yr ystyriwyd | 1 |
| Wedi'u hadfer (gydag amodau) | 0 |
| Heb eu hadfer | 1 |


### Gwybodaeth gysylltiedig

| | |
|---|---|
| Nifer y dyddiau gwrandawiad a drefnwyd: | 1,066 |
| Cynnydd yn nifer y dyddiau gwrandawiad a drefnwyd o 2012 | 5% |
| Hyd gwrandawiad cychwynnol ar gyfartaledd: | 4.5 diwrnod |

### Gwybodaeth gysylltiedig

Yr amser a gymerwyd i gwblhau gwrandawiad cychwynnol yr achos ar ôl atgyfeirio o'r Pwyllgor Ymchwilio (heb gynnwys adolygiadau):

| | Nifer yr achosion |
|---|---|
| 0-9 mis | 48 |
| 10-12 mis | 23 |
| 13-18 mis | 14 |
| 19-24 mis | 8 |
| 25-30 mis | 1 |
| 31+ mis | 4 |



# Strwythur y Cyngor 5

Newidiodd y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ystod 2013, gyda phenodiad Cyngor 12 aelod newydd, gan gynnwys Cadeirydd penodedig, o 1 Hydref 2013. Daeth y Cyngor hwn i gymryd lle'r hen Gyngor a oedd yn cynnwys 24 aelod, gyda Chadeirydd etholedig, ynghyd â'r pedwar Prif Swyddog Deintyddol fel aelodau cyswllt.

## Y Cyngor hyd at 30 Medi 2013

Penodwyd y Cyngor ym mis Hydref 2009 ac roedd yn cynnwys 24 aelod. Roedd 12 aelod cofrestredig a 12 aelod lleyg. Kevin O'Brien oedd Cadeirydd y Cyngor. Dyma aelodau'r Cyngor:

| Aelodau cofrestredig | Aelodau lleyg | Prif Swyddogion Deintyddol[1] |
|---|---|---|
| Paul Averley | Grace Alderson | Barry Cockcroft (Lloegr) |
| Elizabeth Davenport | Rosemary Carter | Donncha O'Carolan (Gogledd Iwerddon) |
| Mary Dodd | Peter Catchpole | Margie Taylor Taylor (Yr Alban) |
| Helen Falcon | Robin Field-Smith | David Thomas (Cymru) |
| Hazel Fraser | Alan MacDonald | |
| Janet Goodwin | David Murphy | |
| Wakkas Khan | Grahame Owen | |
| Anthony Kilcoyne | Derek Prentice | |
| Kevin O'Brien | Neil Stevenson | |
| Mabel Slater | Linda Stone | |
| David Smith | Anne Marie Telford | |
| Denis Toppin | Carol Varlaam | |

1 Gwahoddwyd y Prif Swyddogion Deintyddol i fynychu cyfarfodydd y Cyngor, ond aelodau cyswllt oeddynt ac nid oedd ganddynt bleidlais ac ni chawsant eu cyfrif yn y cworwm.

# Strwythur y Cyngor

parhad

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor 2013

| Enw | 14/02 | 28/03 | 20/06 | 08/08 | 26/09 | Cyfanswm presenoldeb mewn cyfarfodydd y mae aelod yn gymwys i'w mynychu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Grace Alderson | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Paul Averley | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Rosemary Carter | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Peter Catchpole | Oedd | Oedd | Oedd | Nac oedd | Oedd | 4/5 |
| Elizabeth Davenport | Oedd | Oedd | Oedd | Nac oedd | Oedd | 4/5 |
| Mary Dodd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Helen Falcon | Oedd | Oedd | Nac oedd | Oedd | Oedd | 4/5 |
| Robin Field-Smith | Oedd | Oedd | Oedd | Nac oedd | Oedd | 4/5 |
| Hazel Fraser | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Janet Goodwin | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Wakkas Khan | Oedd | Nac oedd | Oedd | Nac oedd | Oedd | 3/5 |
| Anthony Kilcoyne | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Alan MacDonald | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| David Murphy | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Kevin O'Brien (Chair) | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Grahame Owen | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Derek Prentice | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Mabel Slater | Oedd | Oedd | Nac oedd | Oedd | Oedd | 4/5 |
| David Smith | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Neil Stevenson | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Linda Stone | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Anne Marie Telford | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | Oedd | 5/5 |
| Denis Toppin | Nac oedd | Oedd | Nac oedd | Oedd | Oedd | 3/5 |
| Carol Varlaam | Oedd | Nac oedd | Oedd | Nac oedd | Oedd | 3/5 |
| Barry Cockcroft (Prif Swyddog Deintyddol) | Oedd | Oedd | Nac oedd | Nac oedd | Nac oedd | 2/5 |
| Donncha O'Carolan (Prif Swyddog Deintyddol) | Nac oedd | Nac oedd | - | - | - | 0/2 |
| Margie Taylor (Prif Swyddog Deintyddol) | Nac oedd | Oedd | Oedd | Nac oedd | Oedd | 3/5 |
| David Thomas (Prif Swyddog Deintyddol) | Nac oedd | Oedd | Nac oedd | Oedd | Oedd | 3/5 |
| Simon Reid (Prif Swyddog Deintyddol dros dro) | - | - | Nac oedd | Nac oedd | Oedd | 1/3 |

# 5

Cefnogir Cyngor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gan bedwar pwyllgor anstatudol sefydlog. Dyma'r pwyllgorau:

- Y Pwyllgor Archwilio
- Y Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes
- Y Pwyllgor Cynghori ar Bolisi
- Y Pwyllgor Tâl

Yn ogystal, bu gweithgorau'n ymgymryd â gwaith manwl ar ddatblygu mentrau penodol:

- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygu Polisi'r Ffi Cadw Blynyddol
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mynediad Uniongyrchol
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diwygiadau Llywodraethu
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Comisiwn y Gyfraith
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Newid i Ymarfer Annibynnol
- Gweithgor Adolygu Safonau
- Gweithgor Ail-ddilysu
- Bwrdd Deintyddol Addysg Arbenigol

Hyd 31 Rhagfyr 2013, roedd y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol yn cael ei gynorthwyo gan fwrdd cynghori a oedd yn cynnwys pum aelod o'r Cyngor a phedwar aelod allanol.

# Strwythur y Cyngor

parhad

## Aelodaeth y pwyllgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen hyd 30 Medi 2013

| | |
|---|---|
| Grace Alderson | Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Pwyllgor Tâl<br>Gweithgor Adolygu Safonau<br>Grŵp GaG Diwygiadau Llywodraethu (Penodwyd ar ôl 8 Awst) |
| Paul Averley | Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes<br>Grŵp GaG Mynediad Uniongyrchol |
| Rosemary Carter | Pwyllgor Archwilio<br>Pwyllgor Tâl (Cadeirydd)<br>Grŵp GaG Comisiwn y Gyfraith<br>Grŵp GaG Mynediad Uniongyrchol<br>Grŵp GaG Diwygiadau Llywodraethu |
| Peter Catchpole | Pwyllgor Archwilio<br>Bwrdd Addysg Deintyddol Arbenigol |
| Elizabeth Davenport | Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Grŵp GaG Newid i Ymarfer Annibynnol<br>Bwrdd Addysg Deintyddol Arbenigol |
| Mary Dodd | Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes<br>Grŵp GaG Newid i Ymarfer Annibynnol |
| Helen Falcon | Pwyllgor Archwilio<br>Grŵp GaG Newid i Ymarfer Annibynnol |
| Robin Field-Smith | Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes<br>Grŵp GaG Comisiwn y Gyfraith<br>Grŵp GaG Polisi'r Ffi Cadw Blynyddol (Cadeirydd) |
| Hazel Fraser | Pwyllgor Archwilio<br>Grŵp GaG Mynediad Uniongyrchol<br>Grŵp GaG Polisi'r Ffi Cadw Blynyddol |
| Janet Goodwin | Pwyllgor Cyngori ar Gynllunio Ariannol a Busnes<br>Grŵp GaG Diwygiadau Llywodraethu<br>Gweithgor Adolygu Safonau (Cadeirydd) |
| Wakkas Khan | Pwyllgor Tâl<br>Grŵp GaG Comisiwn y Gyfraith<br>Grŵp GaG Polisi'r Ffi Cadw Blynyddol |
| Anthony Kilcoyne | Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Bwrdd Cynghori'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol |

# 5

## Aelodaeth y pwyllgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen hyd 30 Medi 2013 (parhad)

| | |
|---|---|
| Alan MacDonald | Pwyllgor Archwilio (Cadeirydd)<br>Grŵp GaG Comisiwn y Gyfraith<br>Grŵp GaG Diwygiadau Llywodraethu<br>Gweithgor Ailddilysu |
| David Murphy | Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes |
| Kevin O'Brien (Cadeirydd) | Grŵp GaG Comisiwn y Gyfraith (Cadeirydd)<br>Grŵp GaG Diwygiadau'r Llywodraeth (Cadeirydd) |
| Grahame Owen | Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes<br>Bwrdd Cynghori'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol |
| Derek Prentice | Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Grŵp GaG y Ffi Cadw Blynyddol<br>Bwrdd Cynghori'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol<br>Cadeirydd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol |
| Mabel Slater | Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Bwrdd Cynghori'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol |
| David Smith | Pwyllgor Cynghori ar Bolisi (Cadeirydd)<br>Grŵp GaG Ailddilysu<br>Gweithgor Adolygu Safonau |
| Neil Stevenson | Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Grŵp GaG Comisiwn y Gyfraith<br>Grŵp GaG Diwygiadau Llywodraethu |
| Linda Stone | Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Grŵp GaG Diwygiadau'r Llywodraeth<br>Grŵp GaG Comisiwn y Gyfraith<br>Grŵp GaG Newid i Ymarfer Annibynnol |
| Anne Marie Telford | Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Gweithgor Adolygu Safonau<br>Grŵp GaG Mynediad Uniongyrchol (Cadeirydd)<br>Bwrdd Cynghori'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol |
| Denis Toppin | Pwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes (Cadeirydd)<br>Gweithgor Ailddilysu (Cadeirydd)<br>Gweithgor Adolygu Safonau |
| Carol Varlaam | Pwyllgor Cynghori ar Bolisi<br>Gweithgor Ailddilysu<br>Grŵp GaG Newid i Ymarfer Annibynnol (Cadeirydd) |

# Strwythur y Cyngor

parhad

## Y Cyngor o 1 Hydref 2013

Mae'r Cyngor a benodwyd ym mis Hydref 2013 yn cynnwys 12 aelod, 6 aelod cofrestredig a 6 aelod lleyg. Dyma aelodau'r Cyngor:

| Aelodau cofrestredig | Aelodau lleyg |
|---|---|
| Margaret Kellett | William Moyes (Cadeirydd) |
| Kirstie Moons (penodwyd 19 Tachwedd 2013) | Geraldine Campbell |
| Lawrence Mudford | Michael Carroll |
| Jayendra Patel | Rosemary Carter |
| David Smith | Alan MacDonald |
| Jason Stokes | Neil Stevenson |

## Presenoldeb yng nghyfarfod y Cyngor yn 2013

| Enw | 17/10 | 05/12 | Cyfanswm presenoldeb mewn cyfarfodydd y mae aelod yn gymwys i'w mynychu |
|---|---|---|---|
| Geraldine Campbell | Oedd | Oedd | 2/2 |
| Michael Carroll | Oedd | Oedd | 2/2 |
| Rosemary Carter | Oedd | Oedd | 2/2 |
| Margaret Kellett | Oedd | Oedd | 2/2 |
| Alan MacDonald | Oedd | Oedd | 2/2 |
| Kirstie Moons | - | Oedd | 1/1 |
| William Moyes (Cadeirydd) | Oedd | Oedd | 2/2 |
| Lawrence Mudford | Oedd | Oedd | 2/2 |
| Jayendra Patel | Oedd | Oedd | 2/2 |
| David Smith | Oedd | Oedd | 2/2 |
| Neil Stevenson | Oedd | Oedd | 2/2 |
| Jason Stokes | Oedd | Nac oedd | 1/2 |

# 5

**O 1 Hydref 2013, cefnogwyd Cyngor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gan dri phwyllgor anstatudol, fel a ganlyn:**

| Pwyllgor | Aelodau'r Cyngor |
|---|---|
| Pwyllgor Archwilio a Risg | Alan MacDonald (Cadeirydd)<br>Lawrence Mudford<br>David Smith |
| Pwyllgor Cyllid a Pherfformio | Michael Carroll (Cadeirydd)<br>Margaret Kellett<br>Jayendra Patel<br>Neil Stevenson |
| Pwyllgor Tâl | Rosemary Carter (Cadeirydd)<br>Geraldine Campbell<br>Jason Stokes |

**Aelodau annibynnol o'r Cyngor a wasanaethodd gydol 2013:**

| | |
|---|---|
| Lesley Pearson | Pwyllgor Tâl |
| Jennifer Seeley | Pwyllgor Archwilio a Risg |

# Strwythur y Cyngor

parhad

## Pwyllgorau Statudol y Cyngor

O dan Ddeddf Deintyddion 1984 (fel y'i diwygiwyd), mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gyfrifoldeb cyffredinol i ymdrin â honiadau sy'n ymwneud â diffyg addasrwydd i ymarfer aelodau o'r proffesiwn deintyddol.

Mae gan y Cyngor chwe phwyllgor statudol, fel y nodwyd yn adran 2 o Ddeddf Deintyddion 1984, i'w gynorthwyo i gyflawni ei ddyletswydd statudol fel rheoleiddiwr gofal iechyd. Mae'r pwyllgorau'n cynnwys aelodau panel annibynnol sy'n bobl leyg, deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol. Nid yw aelodau'r Cyngor yn aelodau o'r pwyllgorau statudol, ond mae'r pwyllgorau statudol yn atebol i'r Cyngor am eu perfformiad.

Dyma'r pwyllgorau:

- Y Pwyllgor Gorchmynion Interim
- Y Pwyllgor Ymchwilio
- Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol
- Y Pwyllgor Iechyd
- Y Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol
- Y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru

Penodir y pwyllgorau hyn gan Bwyllgor Penodiadau sy'n cynnwys wyth aelod lleyg nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor a gweithwyr deintyddol proffesiynol sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni unrhyw swyddogaeth yn ymwneud â phenodi aelodau pwyllgorau statudol, gan gynnwys recriwtio, dethol, gwerthuso a disgyblu'r cyfryw aelodau. Am ragor o wybodaeth am waith ac aelodaeth pwyllgorau statudol y Cyngor, ewch i wefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol –
**http://www.gdc-uk.org/Aboutus/Thecouncil/Pages/committees.aspx**

## Tîm Rheoli Gweithredol

Yn 2013, roedd y Tîm Rheoli Gweithredol yn cynnwys:

Evlynne Gilvarry, Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu
Frances Low, Cyfarwyddwr Llywodraethu
Neil Marshall, Cyfarwyddwr Rheoleiddio
Graham Masters, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Tim Whitaker, Cyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu

# Adroddiad tâl 6

## Y Pwyllgor Tâl

Mae'r adroddiad ar dâl ar gyfer 2013 yn cynnwys adolygiad o'r Cyngor hyd 30 Medi 2013 ac ar wahân, y Cyngor o 1 Hydref 2014. Gwasanaethodd pedwar aelod o'r Cyngor ar y ddau Gyngor.

Penododd yr hen Gyngor a'r Cyngor newydd Bwyllgor Tâl ar gyfer materion penodol sy'n ymwneud â thalu aelodau'r Cyngor, a chyfarwyddwyr gweithredol ac ar gyfer polisi tâl staff cyffredinol. Rosmerary Carter oedd Cadeirydd y Pwyllgor a dyma'r aelodau: Grace Alderson (hyd 30 Medi 2013), Wakkas Khan (hyd 30 Medi 2013), Geraldine Campbell (o 1 Hydref 2013), Jason Stokes (o 1 Hydref 2013) a Lesley Pearson fel aelod annibynnol. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn ôl cylch gorchwyl penodol ac yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn fel arfer.

## Tâl aelodau'r Cyngor

Mae tâl blynyddol y Cadeirydd yn cael ei bennu gan y pwyllgor ar sail cyfraddau cyffredinol swyddi tebyg a'r amser sy'n ofynnol i gyflawni'r rôl. Ailwerthuswyd tâl y Cadeirydd o 1 Hydref 2013 cyn hysbysebu am swydd y Cadeirydd er mwyn sicrhau ymgeiswyr gyda'r profiad priodol, yn unol â chanllawiau'r Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus, ar raddfa o £55,000 y flwyddyn.

Hyd 30 Medi 2013, talwyd ffi presenoldeb dyddiol o £353 y diwrnod (£176.50 bob hanner diwrnod) i aelodau'r Cyngor. Ers 1 Hydref 2013, mae aelodau'r Cyngor yn cael cyfradd flynyddol o £15,000 y flwyddyn gydag ychwanegiadau o £3,000 y flwyddyn i gadeiryddion pwyllgorau.

## Tâl cyfarwyddwyr gweithredol

Mae dilyniant cyflog ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol yn dibynnu ar berfformiad unigolion a meincnodau allanol ar gyfer cyflogau. Gellir dyfarnu taliadau perfformiad ar wahân i gyfarwyddwyr bob blwyddyn, hyd at uchafswm o 20% o'u cyflog am berfformiad eithriadol. Yn ystod 2013, gwnaed taliadau fel hyn i dri chyfarwyddwr yn amrywio rhwng £9,000 ac £11,000 bob blwyddyn. Yn 2013, ar ôl adolygiad meincnodi allanol, codwyd cyflog y Prif Weithredwr i £152,000 sy'n dod â chyflog lluosog y Prif Weithredwr a'r cyflog cyfartalog canolrifol i 4:1. Derbyniodd un cyfarwyddwr godiad o 5.2% mewn cyflog fel rhan o adolygiad meincnodi allanol a derbyniodd dau gyfarwyddwr gynnydd o 1% fel rhan o'r codiad cyflog blynyddol ar gyfer yr holl staff. Tra bod y Prif Weithredwr yn gwneud argymhellion ar gyfer ei chyd-gyfarwyddwyr gweithredol, mae unrhyw godiadau cyflog neu gynnydd mewn taliadau eraill yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Tâl.

Mae'r holl gyfarwyddwyr gweithredol yn aelodau o gronfa bensiwn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu'n cael ei benodi'n uniongyrchol gan y Cyngor ac yn atebol i'r Cyngor ac mae ganddo awdurdod i wneud penderfyniadau i'r graddau a ddisgrifir yn y Datganiad Llywodraethu. Mae'r Datganiad yn nodi'n glir mai rôl y Cyngor yw

# Adroddiad tâl

parhad

pennu cyfeiriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn unol â'i genhadaeth a'i ddiben; gan sicrhau bod systemau ar waith i'w alluogi i fonitro perfformiad a dwyn y Gweithredwr i gyfrif; a sicrhau cywirdeb. Manylion y taliadau a ddatgelir yw'r rhai ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, ac mae'n rhain yn cael eu nodi'n llawn (gweler nodyn 5 y Cyfrifon). Gyda'i gilydd, talwyd £599,000 i'r pum cyfarwyddwr gweithredol.

## Polisi tâl staff

Datblygir y polisi tâl ar gyfer staff gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol mewn cydweithrediad â'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr gweithredol, cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Tâl. Mae'r system daliadau gyfredol yn defnyddio system o raddau gyda phwyntiau cyflog ychwanegol. Cynyddwyd pwyntiau cyflog o 1% yn ystod y flwyddyn, gan gydnabod elfen ar gyfer chwyddiant yn ystod y cyfnod. Cynhelir adolygiad o'r strwythur cyflog yn ystod 2014.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn gweithredu cronfa bensiwn â buddion wedi'u diffinio sydd ar gael i'r holl staff, ar ôl cwblhau cyfnod aros. Mae'r Pwyllgor Tâl yn adolygu'r trefniadau pensiwn ar hyn o bryd, oherwydd yr angen i gydymffurfio â'r rheoliadau pensiwn seiliedig ar waith a'r angen i fodloni gofynion cofrestru awtomatig sy'n dod i rym ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o 1 Chwefror 2014.

# 6

## Ffioedd a threuliau aelodau'r Cyngor 1 Ionawr 2013 i 30 Medi 2013:

| Aelod o'r Cyngor | Ffioedd Aelodau £ | Treuliau Aelodau £ | Treth ac YG £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Grace Alderson | 6,001 | 3,866 | 3,901 | 13,768 |
| Paul Averley | 4,766 | 4,620 | 2,070 | 11,456 |
| Rosemary Carter | 6,884 | 3,217 | 2,392 | 12,493 |
| Peter Catchpole | 2,471 | 605 | 484 | 3,560 |
| Elizabeth Davenport | 4,236 | 386 | 430 | 5,052 |
| Mary Dodd | 2,471 | 2,049 | 893 | 5,413 |
| Helen Falcon | 3,354 | 800 | 881 | 5,035 |
| Robin Field-Smith | 4,060 | 297 | 352 | 4,709 |
| Hazel Fraser | 5,119 | 3,150 | 2,118 | 10,387 |
| Janet Goodwin | 4,942 | 4,852 | 2,138 | 11,932 |
| Wakkas Khan | 3,530 | 3,883 | 782 | 8,195 |
| Anthony Kilcoyne | 3,354 | 587 | 385 | 4,326 |
| Alan MacDonald | 7,943 | 9,148 | 4,989 | 22,080 |
| David Murphy | 3,001 | 4,334 | 3,914 | 11,249 |
| Kevin O'Brien (Cadeirydd) | 40,744 | 13,223 | 10,325 | 64,292 |
| Grahame Owen | 5,472 | 1,831 | 1,689 | 8,992 |
| Derek Prentice | 8,296 | 1,149 | 1,927 | 11,372 |
| Mabel Slater | 2,471 | 2,229 | 960 | 5,660 |
| David Smith | 6,707 | 5,722 | 5,522 | 17,951 |
| Neil Stevenson | 3,883 | 3,938 | 3,754 | 11,575 |
| Linda Stone | 5,295 | 3,081 | 2,987 | 11,363 |
| Anne Marie Telford | 4,942 | 4,261 | 3,908 | 13,111 |
| Denis Toppin | 5,119 | 6,296 | 6,120 | 17,535 |
| Carol Varlaam | 4,942 | 380 | 513 | 5,835 |
| **Cyfanswm** | **150,003** | **83,904** | **63,434** | **297,341** |

Fel Cadeirydd y Cyngor, talwyd y ffi ar gyfer Kevin O'Brien ar gyfradd flynyddol o £54,000, fel y pennwyd gan y Pwyllgor Tâl a chafodd ei anfon at ei brif gyflogwr, Prifysgol Manceinion.

Mae'r ffigurau yn y tabl uchod wedi'u harchwilio gan haysmacintyre.

# Adroddiad tâl

parhad

## Taliadau a threuliau aelodau'r Cyngor 1 Ionawr 2013 i 31 Rhagfyr 2013:

| Aelod o'r Cyngor | Ffioedd Aelodau £ | Treuliau Aelodau £ | Treth ac YG £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Geraldine Campbell | 3,750 | 669 | 586 | 5,005 |
| Michael Carroll | 4,500 | 822 | 739 | 6,061 |
| Rosemary Carter | 4,500 | 1,491 | 975 | 6,966 |
| Margaret Kellett | 3,750 | 1,229 | 813 | 5,792 |
| Alan MacDonald | 4,500 | 3,050 | 1,624 | 9,174 |
| Kirstie Moons | 1,250 | 338 | 227 | 1,815 |
| William Moyes (Cadeirydd) | 13,750 | 1,643 | 2,326 | 17,719 |
| Lawrence Mudford | 3,750 | 844 | 667 | 5,261 |
| Jayendra Patel | 3,750 | 1,217 | 808 | 5,775 |
| David Smith | 3,750 | 2,033 | 1,823 | 7,606 |
| Neil Stevenson | 3,750 | 2,510 | 2,477 | 8,737 |
| Jason Stokes | 3,750 | 903 | 684 | 5,337 |
| **Cyfanswm** | **54,750** | **16,749** | **13,749** | **85,248** |

Mae'r ffigurau yn y tabl uchod wedi'u harchwilio gan haysmacintyre.

Evlynne Gilvarry

Prif Weithredwr a Chofrestrydd

18 Mehefin 2014

# Adroddiad cyfrifoldeb cymdeithasol

7

## Staff y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

Ym mis Rhagfyr 2013, roedd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cyflogi 278 aelod o staff (2012: 229). Mae'r cynnydd hwn yn deillio o ehangu'r gyfarwyddiaeth Rheoleiddio, yn fwyaf penodol yn natblygiad y swyddogaeth gyfreithiol fewnol sy'n canolbwyntio ar baratoi achosion addasrwydd i ymarfer. Mae cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn yn y niferoedd staff cyfwerth â llawn amser ar gyfartaledd (sy'n cynnwys staff sy'n gweithio oriau rhan-amser) a chostau staff cysylltiedig ar gael yn y Nodiadau i'r cyfrifon ar dudalen 72.

Roedd trosiant staff (a gyfrifir fel staff sy'n gadael am unrhyw reswm, wedi'i rannu gyda nifer y staff mewn swydd ar gyfartaledd) yn 18.3% yn 2013. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd ers 2012 (11.0%) a 2011(14.9%). Roedd y trosiant naturiol (ymddiswyddo yn unig) ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn 8.6% yn 2013 ac felly, er bod trosiant staff wedi cynyddu, mae'r trosiant naturiol ar lefel llawer is.

Rhyw ac oedran: Mae 62% o'n gweithwyr yn fenywod (2012: 59%). Mae'r rhai 50+ oed yn cynrychioli 13% o'r gweithlu (2012: 13%).

Ethnigrwydd: Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod o leiaf draean ein staff o gefndir lleiafrifol ethnig.

Absenoldeb salwch: Collwyd 1530 diwrnod oherwydd salwch yn 2013, sef 4.9 diwrnod y gweithiwr. Mae hyn yn gyson â 2012, lle collwyd 5.2 diwrnod y gweithiwr oherwydd absenoldeb salwch. Mae hyn o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 7.4 diwrnod y gweithiwr (Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu).

Ymgysylltu â staff: Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol fforwm staff etholedig sy'n cyfarfod bob yn ail fis. Mae'r fforwm dan gadeiryddiaeth aelod o'r Tîm Rheoli Gweithredol. Mae'r fforwm yn cynrychioli'r holl dimau yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn trafod materion staff amrywiol. Os cynigir newidiadau a allai effeithio ar yr holl staff, cynhelir cyfarfodydd ymgynghori, p'run a yw ymgynghoriad ffurfiol yn ofyniad cyfreithiol ai peidio. Cynhelir hyn o bryd i'w gilydd mewn sesiynau briffio staff chwarterol. Mae'r sesiynau briffio chwarterol yn gyfle hefyd i staff drafod materion a phynciau'n fwy ffurfiol gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli Gweithredol.

Cynhelir arolwg staff bob yn ail flwyddyn hefyd sy'n arwain at gynllun gweithredu cynhwysfawr sy'n seiliedig ar y canfyddiadau. Adroddir ar gynnydd y cynllun gweithredu yn y sesiynau briffio staff chwarterol.

Mae gan saff y cyfle hefyd i fynegi eu barn a gofyn cwestiynau i'r Tîm Rheoli Gweithredol ar y fewnrwyd yn barhaus. Cyhoeddir cylchlythyr mewnol misol hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff a chyfathrebir yn amlach yn ôl y gofyn.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rhoddwyd cynllun gweithredu cynhwysfawr ar waith yn 2012 gyda'r nod o sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn ystod 2013, ac i geisio sicrhau arferion gorau, parhawyd â mentrau, er enghraifft:

- Casglu data pellach ar gydraddoldeb ac amrywiaeth y sawl sydd ar y gofrestr;
- Datblygu ffurflenni Addasrwydd i Ymarfer i gynnwys casglu data ar gydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Datblygu mecanweithiau ar gyfer cadw data ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y system Adnoddau Dynol;
- Defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn yr holl bapurau polisi ar gyfer gwneud penderfyniadau yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli Gweithredol a'r Cyngor.

# Adroddiad cyfrifoldeb cymdeithasol

parhad

Mae'r cynlluniau ar gyfer 2014 yn cynnwys:

- Diweddaru'r strategaeth gydraddoldeb;
- Cynllun gweithredu treigl ar gyfer holl swyddogaethau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol;
- Gwella'r gwaith o adrodd ar waith cydraddoldeb ac amrywiaeth i'r Tîm Rheoli Gweithredol a'r Cyngor;
- Adolygu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Parhau i ddatblygu a gwneud y defnydd gorau o'r data proffilio amrywiaeth a gasglwn.

## Caffael

Mae ein polisi caffael yn seiliedig ar brosesau a gweithdrefnau cadarn gyda golwg ar hyrwyddo arferion gorau a sicrhau gwerth am arian. Mae'r holl weithgarwch caffael yn cael ei fonitro i sicrhau ein bod yn sicrhau gwerth am arian a'n bod yn agored a thryloyw ac yn cynnig cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol wrth wneud hynny. Byddwn yn parhau i geisio sicrhau arbedion tra'n sicrhau bod y Cyngor Deintyddol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol.

## Iechyd a diogelwch

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi ymrwymo i hyrwyddo amgylchedd iach heb berygl o niwed ar gyfer yr holl staff ac ymwelwyr â'n safleoedd. Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol a Phwyllgor Iechyd a Diogelwch y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn adolygu iechyd a diogelwch yn rheolaidd. Yn 2013, cofnodwyd 7 damwain fechan yn ein prif swyddfeydd yn Llundain ac ni chofnodwyd unrhyw ddamwain yn ein swyddfa yn Croydon.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer staff ac ymwelwyr, cynhaliwyd asesiad perygl tân arbennig yn 2013 ar gyfer ailddatblygu 37 Wimpole Street a chymerwyd camau ychwanegol i sicrhau diogelwch.

Datblygwyd hyfforddiant iechyd a diogelwch electronig yn 2013 ac mae staff bellach yn gallu cyflawni asesiadau ar-lein wrth eu gweithfannau.

## Amgylcheddol

Rydym yn parhau i ailgylchu'r holl wastraff cyfrinachol a gwastraff cymysg. Anogir staff i ddefnyddio'r sganiwr ac i ffeilio'n electronig.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn paratoi i ailddatblygu 37 Wimpole Street yn 2013. Bydd y gwaith yn cael ei gyflawni yn unol ag egwyddorion dylunio cynaliadwy, defnyddio ynni'n effeithlon a lleihau allyriadau carbon deuocsid. Mae'r dodrefn nad ydynt eu hangen ar ôl ailddatblygu 37 Wimpole Street wedi'u cadw mewn storfa dros dro oddi ar y safle a byddant yn cael eu hailddefnyddio yn yr adeilad ar ôl ei ailddatblygu neu eu hailgylchu.

# Adolygiad ariannol

# 8

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2013

### Dadansoddiad o Incwm a Gwariant yn ôl Swyddogaeth Reoleiddio

Mae'r cyfrifon ar dudalennau 60 i 85 yn dangos ein hincwm a'n gwariant mewn fformat cyfrifon safonol. Er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol i randdeiliaid mae'r wybodaeth yn y tabl canlynol yn dangos incwm a gwariant yn ôl swyddogaeth Reoleiddio (noder nad yw ffigurau 2012 a ddangosir isod yn cyfateb i'r ffigurau cymharol yng Nghyfrif Incwm a Gwariant 2013, sydd wedi'u hailddatgan):

| | 2013 | 2013 | 2012 | 2012 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Incwm** | | | | |
| Cofrestru | 30,980 | | 30,531 | |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 1,803 | | 1,660 | |
| Incwm gweithredu arall | 12 | | 8 | |
| | | **32,795** | | **32,199** |
| **Gwariant** | | | | |
| **Gweithgareddau rheoleiddio:** | | | | |
| Addasrwydd i Ymarfer a Gwrandawiadau | 16,157 | | 14,323 | |
| Cofrestru | 2,035 | | 1,889 | |
| Rhagoriaeth Weithredol | 1,230 | | 1,076 | |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 2,154 | | 1,991 | |
| Rheoli Polisi a Rhanddeiliaid | 1,636 | | 1,881 | |
| Llywodraethu | 1,860 | | 1,573 | |
| Sicrhau Ansawdd | 916 | | 828 | |
| Y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 566 | | 537 | |
| | | **26,554** | | **24,098** |
| **Gweithgareddau cefnogi:** | | | | |
| Cyllid, AD a Phrif Swyddog Gweithredol | 2,955 | | 2,588 | |
| Gwasanaethau Llety a Swyddfa | 1,840 | | 1,613 | |
| Technoleg Gwybodaeth | 1,690 | | 1,589 | |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad | 883 | | 736 | |
| | | **7,368** | | **6,526** |
| **Cyfanswm Gwariant** | | **33,922** | | **30,624** |
| Incwm o Fuddsoddiadau | | 555 | | 363 |
| Addasiad i gostau treth a nawdd cymdeithasol | | 0 | | 413 |
| **(Diffyg) / Gwarged cyn trethiant** | | **(572)** | | **2,351** |
| trethiant | | (156) | | (166) |
| **Gadw (Diffyg) / Gwarged ar ôl trethiant** | | **(728)** | | **2,185** |

# Adolygiad ariannol

parhad

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

Ariennir y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn bennaf gan ffioedd a delir gan ddeintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol sy'n gorfod cofrestru, yn unol â'r Ddeddf Ddeintyddion, er mwyn ymarfer deintyddiaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae gweithwyr deintyddol proffesiynol hefyd yn talu ffioedd er mwyn cadw eu henwau ar ein rhestri o arbenigwyr.

Yn 2012, o ystyried y disgwyl y byddai'r baich achos addasrwydd i ymarfer yn cynyddu, cymeradwyodd y Cyngor gyllideb ar gyfer 2013 a oedd yn rhagweld cyllido diffyg o gynnydd 2012 yn y gronfa gyffredinol wrth gefn.

Cynhaliwyd asesiad o'r opsiynau ar gyfer darpariaeth gwasanaethau cyfreithiol addasrwydd i ymarfer yn y dyfodol yn 2012 hefyd, ac roedd cynllun busnes a chyllideb 2013 yn adlewyrchu'r argymhelliad y dylid cyflwyno tîm comisiynu gwasanaethau cyfreithiol a fyddai'n gyfrifol am reoli perfformiad cyflenwyr cyfreithiol allanol cyfredol ac yn ehangu'r tîm cyfreithiol mewnol. O ganlyniad, roedd y ffioedd a godwyd gan ein darparwyr cyfreithiol allanol yn is, yn rhannol oherwydd nifer cynyddol o achosion a gynhaliwyd gan y tîm mewnol ym mhedwerydd chwarter 2013. Cyfrannodd hyn at ddiffyg is nag y cyllidwyd ar ei gyfer o £0.6 miliwn, cyn treth ac addasiadau.

### Dadansoddiad incwm

Cynyddodd cyfanswm yr incwm gweithredu yn ystod y flwyddyn ariannol i £32.8 miliwn (2012 - £32.2 miliwn). Roedd y cynnydd yn bennaf o ganlyniad i'r rhesymau canlynol:-

- Ymunodd 2,211 o ddeintyddion a 6,108 o weithwyr gofal deintyddol proffesiynol ychwanegol â'r gofrestr yn 2013, gan gynhyrchu incwm o £0.5 miliwn.
- Roedd 231 o enwau newydd ar y Rhestr Arbenigwyr a gynhyrchodd incwm o £0.1 miliwn, 44 enw yn llai nag yn 2011, a arweiniodd at ostyngiad o £6,000 mewn incwm.
- Cynyddodd y nifer a safodd Arholiad Cofrestru Tramor Rhan 2 o 6 yn 2012 i 7 yn 2013, er bod nifer is o ymgeiswyr ym mhob arholiad Rhan 1. Roedd y canlyniad yn gynnydd clir o £0.1 miliwn mewn incwm.

Cynyddodd cyfanswm yr incwm buddsoddi o £0.2 miliwn i £0.6 miliwn.

### Dadansoddiad gwariant

Cynyddodd cyfanswm y gwariant i £33.9 miliwn yn 2013 (2012 - £30.6 miliwn), am y rhesymau canlynol:-

- Mae costau addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau wedi cynyddu o £1.9 miliwn i £16.2 miliwn (2012 - £14.3 miliwn) oherwydd:
- Cynnydd o 31% yng nghyfanswm yr achosion newydd a dderbyniwyd yn 2013 o gymharu â 2012, gan arwain at gynnydd o £1.1 miliwn yn lefel yr adnoddau a ddefnyddiwyd yng nghyfnod ymchwilio'r broses addasrwydd i ymarfer, ar ffurf gweithwyr achos ac ysgrifenyddion pwyllgorau ychwanegol.

# 8

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

- Cafwyd cynnydd o 5% yn nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd. Trefnwyd 1066 o ddiwrnodau gwrandawiadau yn 2013, o gymharu â 1019 o ddiwrnodau gwrandawiadau yn 2012. Hefyd, cynhaliwyd yr holl wrandawiadau mewn lleoliadau allanol o fis Ebrill 2013 oherwydd gwaith o ailddatblygu safle'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn 37 Wimpole Street, lle'r oedd dwy o'r pum ystafell gwrandawiadau oedd eu hangen wedi'u lleoli'n flaenorol. Cynyddodd costau'r gwrandawiadau o £1.2 miliwn i £5.7 miliwn yn 2013.
- Mae cost alldaliadau (gan gynnwys ffioedd arbenigwyr, ffioedd cyfreithwyr a threuliau tystion) wedi cynyddu o £0.1 miliwn i £2.0 miliwn, ac wedi'i sbarduno gan gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i'r Pwyllgor Ymchwilio am wrandawiad o 196 yn 2012, i 289 yn 2013.
- Mae'r gost o ailstrwythuro swyddogaeth gyfreithiol addasrwydd i ymarfer (£0.7 miliwn) i gynnwys sefydlu'r timau comisiynu a chyfreithiol mewnol yn gostau untro a fydd yn arwain at arbedion cost hirdymor, parhaol yn y dyfodol ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.
- Roedd y costau ychwanegol hyn a oedd yn cael eu talu'n rhannol fel ffioedd gan ein darparwyr cyfreithiol allanol yn 2013 26% yn is nag yn 2012, oherwydd cyfuniad o gynnydd yn y craffu ar gynhyrchiant cwmnïau a nifer cynyddol o achosion yn cael eu cynnal gan y tîm cyfreithiol mewnol ym mhedwerydd chwarter 2013, gan arwain at filiau is (£1.2 miliwn).
- Cynyddodd costau cofrestru o £0.1 miliwn i £2.0 miliwn (2012 - £1.9 miliwn) oherwydd gwaith ychwanegol a wnaed mewn perthynas â diwedd cylch datblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol.
- Roedd y tîm Rhagoriaeth Gweithredol, a sefydlwyd yn 2012, yn gyfrifol am ddarparu gwelliannau yng ngallu archwilio'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a datblygu ymhellach adrodd gweithredol mewnol, gan arwain at gynnydd o £0.1 miliwn mewn costau staff (2012: £1.1 miliwn).
- Cynyddodd costau'r Arholiad Cofrestru Tramor o £0.2 miliwn i £2.2 miliwn (2012 - £2.0 miliwn), yn unol â chynnydd mewn incwm, oherwydd y nifer uwch sy'n sefyll Rhan 2 yr arholiad sy'n mwy na gwneud iawn am effaith nifer is yr ymgeiswyr yn Rhan 1.
- Gwelwyd gostyngiad yng nghost datblygu polisi a rheoli rhanddeiliaid o £0.2 miliwn oherwydd costau anghylchol a gododd yn 2012 mewn perthynas â datblygu'r Safonau newydd a gyhoeddwyd yn 2013.
- Roedd costau llywodraethu £0.3 miliwn yn uwch yn 2013 (2012 - £1.6 miliwn) oherwydd cost penodi Cyngor 12 aelod newydd a phanelwyr Addasrwydd i Ymarfer.
- Roedd costau adnoddau dynol a chyllid £0.4 miliwn yn uwch (2012 - £2.6 miliwn), yn rhannol oherwydd cynnydd yng nghyfartaledd nifer gweithwyr y Cyngor Deintyddol y Cyffredinol a olygai gynnydd mewn gwariant ar recriwtio, ac yn rhannol oherwydd cynnydd yng nghost gweinyddu'r cynllun pensiwn.
- Cynyddodd costau llety o £0.2 miliwn (2012 - £1.6 miliwn), oherwydd yr angen i rentu gofod swyddfa ar gyfer yr aelodau staff ychwanegol.

# Adolygiad ariannol

parhad

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

Gydol 2013, parhaodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Arweiniodd yr effeithlonrwydd a wnaed yn 2013 at arbedion o £3.2 miliwn, sef 10% o sylfaen cost 2013, gan arwain at arbedion cronnol o tua £6.6 miliwn dros dair blynedd. Gydol y broses o nodi arbedion effeithlonrwydd, mae ystyriaeth ofalus wedi'i rhoi i sicrhau nad yw rhoi'r mesurau ar waith yn peryglu diogelwch y cyhoedd. Yn wir, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn parhau i ddefnyddio'r arbedion hyn i gyllido rhaglen o welliannau i'r swyddogaeth addasrwydd i ymarfer.

Y llynedd, daeth y trafodaethau â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi am statws trethu aelodau ein pwyllgor, panelwyr ac arolygwyr i ben. Cytunwyd y dylid trin y rhan fwyaf fel gweithwyr hunangyflogedig at ddibenion treth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol ac nid yw'n ofynnol bellach i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ddidynnu treth incwm na rhoi cyfrif am Gyfraniadau Yswiriant Gwladol ar eu ffioedd neu eu treuliau. Gan hynny, gwnaed addasiad o £413,000 i'r costau trethiant cronnol yn 2012. Hefyd, gwnaed cais i ad-dalu taliadau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y flwyddyn flaenorol a thaliadau ein Cytundeb Setliad Cynllun Talu Wrth Ennill i CThEM. Fodd bynnag, rydym yn parhau i aros am benderfyniad a fydd yr hawliad yn cael ei dderbyn ai peidio.

### Rhagolygon

Wrth edrych ymlaen at 2014, rydym yn rhagweld cyllideb ddiffyg o £3.0 miliwn, o ystyried yr angen i ariannu'r nifer cynyddol o achosion addasrwydd i ymarfer. Mae'r gyllideb yn rhagdybio, ar ôl dwy flynedd o dwf sylweddol iawn, y bydd nifer yr achosion addasrwydd i ymarfer newydd a dderbynnir yn sefydlogi yn 2014.

Rydym yn wynebu'r sefyllfa lle mae'n annhebygol y bydd gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer yn cael eu symleiddio drwy newidiadau mewn deddfwriaeth tan o leiaf 2016/17, felly byddwn yn ceisio sicrhau'r arbedion mwyaf posibl o fewn y strwythurau cyfredol. Bydd mentrau sydd wedi'u nodi a'u rhoi ar waith eisoes yn parhau yn 2014, gyda tharged i sicrhau arbedion ychwanegol o £2.6 miliwn, gan wneud cyfanswm o £9.2 miliwn dros bedair blynedd. Byddwn yn parhau i sicrhau nad yw'r broses o nodi arbedion effeithlonrwydd yn peryglu diogelwch y cyhoedd.

Cymeradwyodd y Cyngor y broses i ailddatblygu 37 Wimpole Street ym mis Medi 2012 ac ar ôl cwblhau'r broses gaffael, cymeradwyodd y Cyngor wariant ychwanegol o £7.1 miliwn ar gyfer y prosiect ym mis Mehefin 2013, ynghyd â chronfa wrth gefn o £0.3 miliwn, sef cyfanswm o £7.4 miliwn. Dechreuodd y prif gontractwr ar y gwaith ar y safle ddydd Llun 30 Medi 2013, gyda 23 Ionawr 2015 yn cael ei bennu fel dyddiad cwblhau'r contract.

### Cronfa Bensiwn

Yn unol â'r safon adrodd ariannol ar gyfer costau pensiwn, IAS 19, prisiodd actiwari'r cynllun pensiwn, Hamish Wilson, y cynllun pensiwn ar 31 Rhagfyr 2013. Yn ôl eu dadansoddiad, cafwyd cynnydd actiwaraidd net o £2,141,000 yng ngwerth cronfa'r cynllun yn 2013, yn erbyn yr hyn a adroddwyd yng nghyfrifon y llynedd. Mae hyn yn bennaf oherwydd perfformiad buddsoddi da asedau'r cynllun, ac mae 80% o hyn yn cael ei fuddsoddi mewn ecwitïau. Yn y cyfamser, roedd taliadau o'r cynllun £58,000 yn fwy na thaliadau i'r cynllun a'r llog a dderbyniwyd. O ganlyniad, cafwyd cynnydd cyffredinol o £2,083,000 yn y cynllun pensiwn, gan gynyddu gwarged y pensiwn i £5,194,000 (2013) o £3,111,000 (2012).

# 8

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

Mae fersiwn diwygiedig o safon cyfrifyddu IAS19 yn dod i rym eleni. Mae datgelu dadansoddiad sensitifrwydd o bob rhagdybiaeth actiwaraidd ar ddiwedd y cyfnod adrodd yn rhan o'r newidiadau adrodd gofynnol. Mae'r dadansoddiad yn dangos sut y byddai'r rhwymedigaeth budd diffiniedig wedi'i heffeithio gan unrhyw newidiadau yn y rhagdybiaeth actiwaraidd perthnasol a oedd yn rhesymol bosibl bryd hynny.

### Perygl hylifedd

Cynyddodd balansau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i £26.5 miliwn, (2012 - £25.9 miliwn). Roedd £23.8 miliwn o'r balans hwnnw'n ffioedd cofrestru a dalwyd ymlaen llaw ar 31 Rhagfyr 2013. Mae'r balansau hyn yn gylchol ac yn cyrraedd uchafbwynt yn Rhagfyr/Ionawr a Gorffennaf/Awst. Mae lefelau arian yn lleihau rhwng y cyfnodau hyn gan fod derbynebau'r Cyngor ar eu huchaf ym mis Rhagfyr, pan fydd deintyddion yn talu eu ffioedd cadw blynyddol, ac ym mis Gorffennaf, pan fydd gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn talu eu ffioedd nhw. Mae gwariant y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i rannu'n gyfartal gydol y flwyddyn.

Ym mis Mai 2012, penododd y Cyngor Smith & Williamson i fuddsoddi £12 miliwn o'r balansau arian sydd ar gael mewn cymysgedd o ecwitïau a gwarantau llog sefydlog. Mae'r gwaith o fuddsoddi'r £12 miliwn wedi parhau gydol 2012. Mae gwarantau rhestredig ac ymddiriedolaethau unedol oedd ym meddiant y Cyngor bellach wedi'u trosglwyddo i reolaeth Smith & Williamson.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn fodlon nad yw'n agored i unrhyw berygl hylifedd sylweddol. Mae'r balansau nad oes angen eu defnyddio at ddibenion gweithredol tymor byr yn cael eu buddsoddi yn y farchnad arian am dymor o dri mis fel blaendal marchnad ariannol a chaiff hyn ei adolygu a'i adnewyddu ar ddiwedd pob tymor.

### Cronfeydd wrth gefn

Adolygwyd a chytunwyd ar y polisi Cronfeydd Wrth Gefn yn 2013. Mae'n rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

a. amcanion y Cyngor wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a rheoleiddio

b. risg i incwm a gwariant y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

c. rhaglenni gwariant cyfalaf sylweddol arfaethedig

Wrth osod lefelau targed, ystyriodd y Cyngor fod cronfeydd wrth gefn o fewn ystod o bedwar i chwe mis o'r gwariant gweithredu blynyddol yn briodol. Mae'r ystod hwn yn amodol ar ystyriaeth flynyddol gan Bwyllgor Cynghori ar Gynllunio Ariannol a Busnes y Cyngor pan fydd yn argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo cyllideb y flwyddyn ganlynol. Mae'r cronfeydd gwirioneddol wrth gefn yn £15.2 miliwn, ar sail y polisi cyfredol.

# Adolygiad ariannol

parhad

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### Archwilwyr allanol

Mae'r cyfrifon wedi'u harchwilio gan ein harchwilwyr, haysmacintyre o 26 Red Lion Square, Llundain WC1R 4AG ac yn unol â Deddf Deintyddion 1984 gan y Comptroller and Auditor General, Amyas C E Morse, National Audit Office, 157-191 Buckingham Palace Road, Victoria, Llundain SW1W 9SP. Mae'r adroddiad archwilio annibynnol i'w weld ar dudalen 57 o'r adroddiad hwn, ac mae tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ar dudalen 59.

### Datgelu gwybodaeth archwilio i'r archwilwyr

Cyn belled ag y gwyddom ni, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd pob cam posibl i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

William Moyes
Cadeirydd
18 Mehefin 2014

Evlynne Gilvarry
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
18 Mehefin 2014

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr

# 9

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

Dan Ddeddf Deintyddion 1984 mae'n ofynnol i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol baratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ogystal â'i incwm a'i wariant, newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Cyngor a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu wneud y canlynol:

- Rhoi sylw i'r Dyfarniadau Cyfrifon a gyhoeddir gan y Cyfrin Gyngor, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a rhoi polisïau cyfrifyddu addas ar waith yn gyson
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- Nodi a yw safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y nodir yn y Dyfarniadau Cyfrifon, wedi'u dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol gwneud hynny.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr i fod yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol i'r Cyngor am briodoldeb a rheoleidd-dra ei gyllid, am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi ystyried y gofynion uchod ac o'r farn lle bônt yn berthnasol i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y cydymffurfiwyd â hwy dan bob amgylchiad materol, gydag unrhyw faterion arwyddocaol wedi'u nodi yn y Datganiad Llywodraethu sy'n dilyn.

# Datganiad Llywodraethu

## Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n atebol am gynnal trefniadau llywodraethu a sicrhau bod system reoli fewnol gadarn ar waith sy'n cefnogi polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn diogelu asedau'r sefydliad. Y Cyfrin Gyngor sy'n penodi'r Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Wrth wneud fy asesiad, rwyf wedi dibynnu ar adroddiadau a thrafodaethau ag archwilwyr mewnol a gwaith monitro parhaus ar ein cofrestri risg.

Mae'r system reoli fewnol a ddefnyddir ar gyfer y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i chynllunio i reoli risgiau, gan gydnabod nad yw hi'n bosibl cael gwared ar bob risg yn llwyr. Ym mis Tachwedd 2012, nododd y Cyngor ei oddefiant risg mewn perthynas â swyddogaethau statudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol; caiff hyn ei adlewyrchu mewn asesiad o risg strategol a'i gofnodi ar y gofrestr risg strategol.

## Trefniadau llywodraethu

Yn unol â gorchymyn cyfansoddiad newydd a gytunwyd yn 2012, rhoddwyd trefniadau llywodraethu newydd ar waith yn 2013. Olynwyd y Cyngor o 24 aelod ar 1 Hydref 2013 gan Gyngor o 12 aelod, gyda Chadeirydd penodedig. Cynlluniwyd a gweithredwyd proses drosglwyddo ofalus gydag adroddiadau cynhwysfawr yn nodi gwaith parhaus y Cyngor a'i Bwyllgorau, er mwyn sicrhau cyfnod pontio esmwyth.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau craidd yn effeithlon ac mewn ffyrdd sy'n sicrhau diogelwch cleifion. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu strategaeth a chyfeiriad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a sicrhau bod pob penderfyniad pwysig yn cyd-fynd â'r strategaeth, gan wneud penderfyniadau pwysig ar bolisi a sicrhau a monitro gonestrwydd ariannol.

Cymeradwyodd y Cyngor bolisi rheoli risg ym mis Medi 2012. Roedd yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r Cyngor, y Pwyllgor Archwilio [a ailenwyd ym mis Hydref 2013 yn Bwyllgor Archwilio a Risg], y Weithrediaeth ac eraill.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am:

- bennu awydd y sefydliad i fentro;
- sicrhau bod yna system rheoli risg, gyda gweithdrefnau a mesurau rheoli mewnol effeithiol;
- cymeradwyo'r polisi rheoli risg;
- nodi a chynghori ar risgiau allweddol;
- craffu ar y gwaith o reoli risgiau strategol;
- dal y Weithrediaeth i gyfrif am reoli risg.

# 10

## Trosolwg y Cyngor o risgiau strategol

Mae'r Cyngor yn trafod y Gofrestr Risgiau Strategol ym mhob cyfarfod. Mae hefyd yn derbyn Adroddiad Perfformiad chwarterol sy'n cynnwys gwybodaeth yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer addasrwydd i ymarfer, cofrestru a swyddogaethau eraill. Mae cynnwys y dogfennau hyn wedi darparu gwybodaeth reoli sy'n gynyddol ddefnyddiol i'r Cyngor i lywio'u gwaith o wneud penderfyniadau, monitro cynnydd yn erbyn y strategaeth gorfforaethol a dal y Weithrediaeth i gyfrif am ei pherfformiad. Mae pob papur sy'n galw am benderfyniad gan y Cyngor yn nodi'n benodol y risgiau strategol perthnasol er mwyn i'r Cyngor allu eu hystyried wrth ddod i benderfyniad.

Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad blynyddol o'i effeithiolrwydd ei hun. Mae'r Cyngor yn ystyried y canlyniadau ac yn nodi camau ar gyfer gwella ac yn cynllunio amserlen ar gyfer adolygu.

Caiff presenoldeb aelodau'r Cyngor mewn cyfarfodydd ei gofnodi yng nghofnodion y cyfarfodydd sydd i'w cael ar wefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae tabl o bresenoldeb aelodau ar dudalennau 30 a 34.

Gan nad yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i ddosbarthu fel Corff Hyd Braich, nid oes rhaid i ni gydymffurfio â'r 'Corporate governance in central government departments: Code of practice 2011'. Serch hynny, rydym yn ystyried yr egwyddorion da a nodir yn y ddogfen ar gyfer datblygu ac adrodd ar ein trefniadau llywodraethu.

## Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am roi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â chywirdeb datganiadau ariannol, trefniadau llywodraethu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, systemau rheoli mewnol a rheoli risg ac effeithiolrwydd y systemau archwilio mewnol ac allanol, yn cynnwys a gyflawnwyd y camau gweithredu a nodwyd mewn adroddiadau archwilio.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gyfrifol am:

- oruchwylio trefniadau rheoli risg ar ran y Cyngor
- rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg
- cael sicrwydd am drefniadau rheoli risg gan archwilwyr mewnol
- adolygu statws a thueddiadau pob risg yn y gofrestr risgiau strategol.

## Tîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Cyngor yn cael ei gefnogi gan staff y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, dan arweinyddiaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r Swyddog Cyfrifyddu ac aelodau eraill y Tîm Rheoli Gweithredol. Mae aelodau'r Tîm Rheoli Gweithredol yn gweithredu fel cyfarwyddwyr Gweithredol y Cyngor. Maent yn rhannu cyfrifoldeb am gamau gweithredu a phenderfyniadau a wneir, waeth beth fo'u cyfrifoldebau llinell unigol. Mae'r tîm staff yn cynnwys pedair cyfarwyddiaeth: gwasanaethau corfforaethol, llywodraethu, polisi a chyfathrebu a rheoleiddio.

# Datganiad Llywodraethu

parhad

Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn gyfrifol am:

- nodi'r risgiau strategol a sicrhau bod perchnogaeth am bob risg yn cael ei dyrannu ar y lefel gywir gydag atebolrwydd clir;
- nodi a gwerthuso risgiau wrth iddynt ddigwydd o fewn adrannau a chyfarwyddiaethau;
- adolygu ac adrodd ar risgiau i'r Cyngor ac agweddau eraill ar y model llywodraethu;
- adrodd i'r Cyngor ar reoli risgiau'n effeithiol fel y maent yn berthnasol i ddatblygu polisi, perfformiad gweithredol a defnyddio adnoddau;
- cynllunio a gweithredu'r polisi rheoli risg a sicrhau arferion rheoli risg da;
- sicrhau bod y cofrestri risg strategol, gweithredu a phrosiect yn gyfredol, perthnasol a chynhwysfawr.

Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn cyfarfod bob pythefnos ac yn trafod risgiau corfforaethol ym mhob cyfarfod.

Mae'r gofrestr risgiau strategol yn llywio penderfyniadau'r Cyngor a'r Weithrediaeth. Caiff ei hadolygu gan y Weithrediaeth yn barhaus ac mae'n eitem sefydlog ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Fe'i hystyriwyd wrth ddatblygu'r strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer 2013-15, y cytunwyd arni gan y Cyngor ym mis Medi 2012. Mae'r Cyngor a benodwyd o fis Hydref 2013 yn ystyried a ddylid datblygu neu adolygu'r strategaeth gorfforaethol gyfredol ymhellach ai peidio. Bydd cynnwys a fformat y gofrestr risg strategol yn cael eu hail-farnu a risgiau allweddol yn cael eu hadolygu a chyflwynir cofrestr risg strategol ddiwygiedig i'r Cyngor i adlewyrchu unrhyw ddatblygiadau yn y strategaeth gorfforaethol.

Mae'r gofrestr risgiau strategol yn seiliedig ar gofrestri risgiau gweithredol sy'n ymwneud â holl weithrediadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Caiff y rhain eu cynnal gan dîm o Reolwyr Risgiau ledled y sefydliad ac mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn defnyddio gwybodaeth o'r cofrestri gweithredol wrth ystyried y gofrestr risg strategol. Caiff rhwydwaith y Rheolwyr Risg ei gydlynu er mwyn sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud rhwng y cofrestri risgiau strategol a gweithredol a bod lefel eu difrifoldeb yn cael ei throsglwyddo i lefel uwch lle bo angen.

Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn parhau i wella. Dengys adolygiad archwilio mewnol yn 2013 enghreifftiau da o reoli risg ar lefel weithredol. Yn gyffredinol mae datblygiad pellach wedi'i gynllunio o ran diffinio risgiau a dulliau lliniaru ar gyfer y set o risgiau strategol a wynebir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Bydd archwilwyr mewnol yn cydlynu hyfforddiant ar reoli risg ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Risg a chaiff hyn ei estyn i'r Cyngor.

### Datgelu prif risgiau ac ansicrwydd

Ers 2011, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo nifer o newidiadau i brosesau Addasrwydd i Ymarfer er mwyn gwella cwynion ynghylch Addasrwydd i Ymarfer. Maes pryder allweddol yw'r cynnydd yn y cwynion ynghylch Addasrwydd i Ymarfer a dderbyniodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol; mae'r rhif bron â dyblu rhwng 2011 a 2013 gan olygu bod angen recriwtio a chadw adnoddau digonol mewn pryd i ymdrin â'r gwaith ychwanegol. Mae hyn yn faes risg sylweddol sy'n gorfod cael ei fonitro'n barhaus. Bydd rhaid newid deddfwriaeth er mwyn gwneud newidiadau pellach i wneud prosesau Addasrwydd i Ymarfer yn fwy effeithiol a llai drud. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi parhau i gydweithio â Chomisiwn y Gyfraith (sydd wedi drafftio Bil newydd ar gyfer yr Adran Iechyd) a rhanddeiliaid perthnasol ar ddatblygu deddfwriaeth newydd ar gyfer rheoleiddio'r proffesiwn deintyddol.

# 10

Ym mis Awst 2013, archwiliodd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (Awdurdod) sampl o 100 o achosion yng nghyfnod cychwynnol Addasrwydd i Ymarfer rhwng mis Rhagfyr 2012 a mis Mai 2013. Canfu'r archwiliad fod pob penderfyniad ond un a wnaed yn briodol ond nodwyd llawer o feysydd i'w gwella o ran gweinyddiaeth achosion. Mae cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r pryderon hyn ac mae'r broses o'i weithredu'n cael ei fonitro'n ofalus.

Comisiynodd y Cyngor adolygiad annibynnol o brosesau'r Pwyllgor Ymchwilio yn sgil y pryderon a godwyd. O ganlyniad i'r adolygiad, rydym hefyd yn gweithredu amrywiaeth o fesurau i atgyfnerthu annibyniaeth y Pwyllgor Archwilio ac i wella effeithiolrwydd y cam hwn o'r broses Addasrwydd i Ymarfer. Ym mis Mai 2014, cyhoeddodd yr Awdurdod ei fwriad i gynnal archwiliad o brosesau rheoli a chefnogi Pwyllgor Archwilio'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Ar ôl cyhoeddi'r ail adroddiad gan Robert Francis, Cwnsler y Frenhines,  ym mis Chwefror 2013 ynglŷn â methiannau Ymddiriedolaeth GIG  Canolbarth Swydd Stafford, ystyriodd y Cyngor y goblygiadau allweddol a ddeuai yn sgil adroddiad Francis. Mae pob un o feysydd y Cyngor wedi'u hadolygu yn erbyn gofynion a disgwyliadau adroddiad Francis, ac argymhellion llywodraeth San Steffan ar yr adroddiad. Cymeradwywyd cynllun gweithredu ac amserlen gan y Cyngor a bydd y prosesau gweithredu'n cael eu monitro.

Cychwynnwyd ar y gwaith o ailwampio ein pencadlys yn 37 Wimpole Street ym mis Medi 2013. Mae bwrdd y rhaglen yn goruchwylio'r gwaith a grŵp cydgysylltu â staff yn ymgynghori ag aelodau staff. Mae cynllun manwl a chofrestr risg ar gyfer y gwaith. Canfuwyd rhai problemau strwythurol wrth gyflawni'r gwaith dymchwel nad oedd modd rhesymol eu rhagweld ar ddechrau'r gwaith. Cafwyd datrysiad i'r problemau hyn ond bydd rhai costau ychwanegol i'w hwynebu a pheth oedi wrth gwblhau'r gwaith.

Lansiwyd Safonau Newydd ar gyfer y Tîm Deintyddol ym mis Medi 2013 gydag ymgyrch yn y cyfryngau i helpu cleifion i ddeall beth y gallant ei ddisgwyl gan y proffesiwn deintyddol. Nod y Safonau yw hyrwyddo perfformiad proffesiynol da a diogelu cleifion. Mae'r rhaglen weithredu ar y gweill a bydd gwerthusiad o ymwybyddiaeth unigolion cofrestredig o'r Safonau newydd.

Yn 2012, cychwynnwyd ar roi system ar waith i reoli achosion ledled y Cyngor, gan ddechrau trwy fudo'r swyddogaeth Addasrwydd i Ymarfer ac wedyn y swyddogaeth Cofrestriad gan fudo holl feysydd eraill ein gwaith i ddilyn. Mae'r broses weithredu'n cael ei rheoli'n ofalus er mwyn sicrhau nad oes tarfu ar weithrediadau busnes a gwasanaeth arferol.

### Torri rheolau diogelu data

Yn 2013 nodwyd adroddiadau am 21 achos a oedd yn ymwneud â thorri rheolau diogelu data, sy'n llai o nifer nag yn 2012 pan gafwyd 26 achos. Roedd mwyafrif yr achosion yn rhai lefel isel a rhoddwyd gwybod amdanynt i'r partïon perthnasol a chywirwyd y sefyllfa mewn fawr o dro. Er bod y Cyngor yn falch o ddweud bod y nifer yn llai, rydym yn benderfynol o gymryd camau pellach i leihau achosion o dorri rheolau diogelu data ac rydym wedi ymrwymo i ddysgu'r gwersi a ddaw yn sgil unrhyw achos. Gwelwyd ychydig o dystiolaeth o welliant gan i ni gael dim ond pedwar achos ym mhedwar mis olaf y flwyddyn. Ystyriwyd manylion yr achosion yng ngoleuni'r canllawiau a ddarparwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys swmp a sensitifrwydd y data a difrifoldeb yr achos.

# Datganiad Llywodraethu

parhad

### Ymchwiliadau ffurfiol

Yn gynnar yn 2013, dywedodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wrthym ei bod yn ystyried yn ffurfiol gŵyn a dderbyniwyd gan unigolyn a oedd wedi cael ei effeithio gan achos o dorri rheolau diogelu data yn 2011. Ers hynny, mae'r mater wedi ei gau ac mae'r Swyddfa wedi nodi nad oes angen unrhyw gamau rheoleiddio. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried y materion a godwyd yn yr achos hwn gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd i greu gwell mesurau er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.

Cafodd y Cyngor gyngor gan y Swyddfa ym mis Awst 2013 fod ail gŵyn ffurfiol wedi ei gwneud am ei driniaeth o gais Rhyddid Gwybodaeth gwahanol. Ar gais y Swyddfa, mae'r Cyngor wedi darparu rhywfaint o wybodaeth gychwynnol sy'n cael ei hystyried ar hyn o bryd. Mae'r mater yn parhau.

### Hunan-adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Ym mis Gorffennaf 2013, roedd y Cyngor wedi cyflwyno hunanadroddiad i'r Swyddfa am achos o dorri'r Ddeddf Diogelu Data. Yn sgil problem TG roedd cyflyrau preifat yn ymwneud â nifer fach o unigolion cofrestredig wedi eu cyhoeddi ar y gofrestr ar-lein rhwng 7 Mai 2013, pan newidwyd cod TG a 3 Mehefin 2013, pan ddigwyddodd yr achos o dorri'r ddeddf. Cynhaliwyd ymchwiliad ar unwaith a gwelwyd bod hyn wedi effeithio ar 11 unigolyn cofrestredig, a bod gwybodaeth gyfrinachol am eu cofrestriad wedi cael ei harddangos yn anfwriadol. Tynnwyd y gofrestr oddi ar y we i wneud addasiad technegol, a'i rhoi yn ôl ymhen ugain munud.

Anfonwyd llythyrau at yr holl unigolion cofrestredig a effeithiwyd ac at eu cynrychiolwyr i esbonio'r digwyddiad, yn ymddiheuro, a chadarnhau'r camau a gymerwyd i sicrhau nad yw digwyddiad tebyg yn digwydd eto.

Cynhaliodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol Adolygiad Digwyddiadau - proses a ddefnyddir i ymchwilio i ddigwyddiadau sydd wedi cael, neu sydd â'r potensial o gael, effaith niweidiol sylweddol ar y Cyngor neu lle mae risg sylweddol yn cael ei nodi.

Mae canllawiau newydd mewn perthynas ag achosion o dorri rheolau datgelu data wedi cael eu cymeradwyo ac maent ar gael i'r holl staff.

### Rhyddid Gwybodaeth

Bu oedi yn y gwaith o integreiddio Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau gwrthrych am wybodaeth i mewn i system rheoli achosion y Cyngor ac mae'r gwaith hwn wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth busnes yn 2014. Mae hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o ddiogelu data wedi parhau ac mae'n cynnwys defnyddio adnoddau Think Privacy! yr ICO a sesiynau ymsefydlu ar ddiogelwch gwybodaeth ar gyfer yr holl newydd-ddyfodiaid.

Yn ystod chwarter olaf 2013 aethom ati i ddechrau adolygiad o'r prosesu Rhyddid Gwybodaeth cyfredol gyda golwg ar wella ansawdd a phrydlondeb yr ymatebion. Bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu gyda'r holl dimau ac yn cael eu defnyddio lle bo'n berthnasol i lywio prosesau a gwelliannau corfforaethol eraill.

Mae gwybodaeth ynglŷn â nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a cheisiadau gwrthrych am wybodaeth yn parhau i gael ei chrynhoi o'r gronfa ddata Rhyddid Gwybodaeth a'i hadrodd i'r Cyngor bob chwarter, a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor. Yn 2013, cofnodwyd 316 o ymholiadau Rhyddid Gwybodaeth, sy'n fwy na'r 221 a gofnodwyd yn 2012, a 99 o geisiadau gwrthrych am wybodaeth, (96 yn 2012).

# 10

**Hyfforddiant**

Yn ogystal ag ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff ehangach, darperir hyfforddiant ac arweiniad cefndir i'r holl gynrychiolwyr Rhyddid Gwybodaeth newydd. Rhoddwyd hyfforddiant i aelodau'r Cyngor newydd ar rwymedigaethau'r Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gan gynnwys diogelwch gwybodaeth, fel rhan o'r hyfforddiant ymsefydlu ym mis Hydref 2013. Rhoddwyd hyfforddiant i aelodau'r panel Addasrwydd i Ymarfer mewn perthynas â materion diogelwch gwybodaeth.

**Diogelwch Data**

Ddechrau 2013, daeth y Cyngor yn ymwybodol fod un wefan o leiaf wedi cynnig cofnodi oriau DPP ar ran unigolion cofrestredig ar eGDC ac yn gofyn i unigolion cofrestredig roi i'r cwmni dan sylw eu henw defnyddiwr a'u cyfrinair. Roedd hi'n amlwg bod hon yn broblem o ran diogelwch data, gan fod eGDC yn gadael i aelodau cofrestredig gael mynediad at wybodaeth bersonol sensitif amdanynt eu hunain a'i diweddaru. Cyhoeddodd y Cyngor ddatganiad i'r wasg i atgoffa unigolion cofrestredig i beidio â datgelu eu manylion mewngofnodi eGDC i drydydd parti. Fel rhan o'r gwelliannau i ymarferoldeb y safle eGDC, rhoddwyd neges arall i atgoffa unigolion cofrestredig y dylent gadw eu manylion mewngofnodi yn gyfrinachol.

## Gwaith archwilio mewnol

Mae gennym raglen flynyddol o archwiliadau mewnol a gynhelir gan Grant Thornton. Mae'r cynllun archwilio'n cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio ac mae adroddiadau'r archwilwyr yn garddio'r swyddogaeth benodol ar raddfa benodedig. Mae canfyddiadau 2013 yn dangos patrwm o welliant sylweddol, o rai enghreifftiau o raddfa 'sicrwydd cyfyngedig' i raddfa gyffredinol o 'sicrwydd sylweddol'. Mae Grant Thornton yn llunio adroddiad blynyddol sy'n cynnwys yr adroddiadau unigol. Mae hwn yn gweithredu fel cymeradwyaeth i'r rhaglen flynyddol ac i sicrhau bod camau gweithredu a nodir mewn ymatebion gan reolwyr yn cael eu rhoi ar waith.

## Adolygu gwybodaeth reoli

Roedd archwiliad mewnol o'r wybodaeth reoli yr adroddwyd arno ym mis Chwefror 2013 yn rhoi sgôr 'sicrwydd sylweddol' i'r Cyngor Deintyddol am ei adroddiadau. Daeth i'r casgliad cyffredinol bod adroddiadau a gynhyrchir i'r Cyngor a'r Uwch Reolwyr o ansawdd da o ran y fformat, cyflwyniad a dealltwriaeth gyffredinol o berfformiad y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Adroddodd Grant Thornton ar ddiwedd 2013 eu bod yn 'nodi newidiadau sylweddol a chadarnhaol ynglŷn â'r Cyngor, y strategaeth gorfforaethol a'r wybodaeth reoli'.

O fis Hydref 2013, mae'r Cyngor yn adolygu'r perfformiad a'r wybodaeth ariannol sydd ar gael i'r Cyngor, er mwyn sicrhau bod yr adroddiadau a gynhyrchir wedi'u targedu mor effeithiol ag y bo modd.

Evlynne Gilvarry
Prif Weithredwr a Chofrestrydd
18 Mehefin 2014

# Cyfrifon 2013

# 11

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

12

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013 sy'n cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, Datganiad o Newidiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig sydd â'r rhifau 1 i 23.

Wrth baratoi'r cyfrifon, defnyddiwyd fframwaith adrodd ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Adroddiad i Aelodau'r Cyngor, fel corff, yn unig yw hwn, yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddir yn unol â hynny gan y Cyfrin Gyngor. Mae ein gwaith archwilio wedi cael ei wneud fel y gallwn hysbysu Aelodau'r Cyngor am y materion hynny sy'n ofynnol i ni hysbysu amdanynt mewn adroddiad archwilio ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir hynny gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am yr adroddiad hwn, nac am y farn sydd gennym, i unrhyw un heblaw'r Cyngor ac aelodau'r Cyngor fel corff.

## Cyfrifoldebau unigol y Cyngor, y Prif Weithredwr a'r archwilydd

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio a mynegi barn ar y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

## Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael gafael ar dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys datganiadau sy'n faterol wallus, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau'r Cyngor ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol; pa mor rhesymol yw amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Rydym yn darllen yr holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol i ganfod anghysondebau materol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os ydym yn dod yn ymwybodol o unrhyw ddatganiadau anghywir neu anghysondebau perthnasol ymddangosiadol, rydym yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad.

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

parhad

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y Cyngor fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2013 ac o'i ddiffyg ariannol / gwarged ar ddiwedd y flwyddyn honno;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf gan y Cyfrin Gyngor.

haysmacintyre
Archwilydd Statudol
26 Red Lion Square
Llundain WC1R 4AG

18 Mehefin 2014

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

13

**Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd**

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013 o dan Ddeddf Deintyddion 1984. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, datganiad o'r Llif Arian, Datganiad o Newidiadau i'r Cronfeydd Wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar dâl Aelodau'r Cyngor y disgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

**Cyfrifoldebau unigol y Cyngor, y Prif Weithredwr a'r archwilydd**

Fel yr esboniwyd yn fwy trylwyr yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'i Brif Weithredwr, y Cyngor a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, cadarnhau ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Deintyddion 1984. Bu i mi gynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i'm staff a minnau gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn ymwneud â chael gafael ar dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys datganiadau sy'n faterol anghywir, boed hynny trwy dwyll neu gamgymeriad.

Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol; pa mor rhesymol yw amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, darllenais yr holl wybodaeth ariannol a heb fod yn ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i nodi anghysondebau sylweddol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os wyf yn dod yn ymwybodol o unrhyw ddatganiadau anghywir neu anghysondebau sylweddol ymddangosiadol, rwy'n ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Rhaid i mi gael gafael ar ddigon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a nodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio i'r dibenion y bwriadwyd hwy ar eu cyfer gan Senedd San Steffan a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob modd materol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio i'r dibenion y bwriadwyd nhw ar eu cyfer gan Senedd San Steffan ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr ariannol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol fel ag yr oedd ar 31 Rhagfyr 2013 ac o'r gwarged a oedd ganddo ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yr adeg honno;
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Deintyddion 1984 a'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd o dan y ddeddf.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Blynydol ar Dâl Aelodau'r Cyngor i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a wnaed o dan Ddeddf Deintyddion 1984;
- mae'r wybodaeth a roddir yn adrannau Adolygiad Ariannol ac Adroddiad Cyfrifoldeb Cymdeithasol, Strwythur y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr wyf yn adrodd yn eu cylch trwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion canlynol, oni bai bod y canlynol, yn fy marn i, yn wir amdanynt:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau na chafodd ymweliad gan fy staff;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar Dâl Aelodau'r Cyngor i'w archwilio yn cyfateb i'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni;
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Syr Amyas C E Morse
Comptroller and Auditor General
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, Llundain SW1W 9SP

25 Mehefin 2014

# Cyfrif incwm a gwariant

# 14

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

| | Nodyn | 2013 | Ailddatgan 2012 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| **Incwm** | | | |
| Ffioedd | 2 | 30,980 | 30,531 |
| Arholiad Cofrestru Tramor | 3 | 1,803 | 1,660 |
| Amrywiol | 3 | 12 | 8 |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **32,795** | **32,199** |
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | 5 | 13,281 | 11,458 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 6 | 9,778 | 10,132 |
| Cyfarfodydd Cyngor a Phwyllgor | 7 | 6,514 | 5,141 |
| Gweinyddiaeth | 8 | 2,935 | 2,251 |
| Llety | 9 | 741 | 706 |
| Cyfathrebu a Chyhoeddiadau | 10 | 673 | 777 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **33,922** | **30,465** |
| **(Diffyg)/gwarged ar ôl gwariant gweithredu** | | **(1,127)** | **1,734** |
| Addasiad i gostau treth a nawdd cymdeithasol | | - | 413 |
| Incwm buddsoddiadau | 4 | 555 | 363 |
| **(Diffyg)/gwarged ar gyfer y flwyddyn ar ôl incwm buddsoddiadau ac addasu** | | **(572)** | **2,510** |
| Treth | 11 | (156) | (166) |
| **(Diffyg)/gwarged a gadwyd ar ôl treth** | | **(728)** | **2,344** |
| **Incwm/(gwariant) cynhwysfawr arall** | | | |
| Enillion ar fuddsoddiad heb eu gwireddu | 14 | 260 | 430 |
| Enillion actiwaraidd ar asedau cynllun pensiwn | 19 | 2,025 | 568 |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr arall** | | **2,285** | **998** |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **1,557** | **3,342** |

Mae pob incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau parhaus

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol

15

## Ar 31 Rhagfyr 2013

| | Nodyn | 31 Rhag 2013 | 31 Rhag 2012 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 12 | 3,030 | 2,582 |
| Asedau anghyffyrddadwy | 13 | 1,176 | 1,217 |
| Asedau ariannol – asedau ar gael i'w gwerthu | 14 | 13,264 | 12,996 |
| Darpariaeth ar gyfer asedau pensiwn | 19 | 5,194 | 3,111 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **22,664** | **19,906** |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 15 | 641 | 710 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 16 | 26,454 | 25,851 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **27,095** | **26,561** |
| **Cyfanswm asedau** | | **49,759** | **46,467** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a thaliadau eraill | 17 | 4,894 | 3,754 |
| Rhwymedigaethau eraill | 17 | 11 | 11 |
| Incwm gohiriedig | 17 | 22,988 | 22,436 |
| Darpariaethau | 18 | - | 83 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **27,893** | **26,284** |
| **Asedau anghyfredol a/llai asedau/rhwymedigaethau** | | **21,866** | **20,183** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | |
| Darpariaethau | 18 | 135 | 135 |
| Eitemau taladwy eraill | 17 | 288 | 162 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **423** | **297** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **21,443** | **19,886** |
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | |
| Cronfa gyffredinol wrth gefn | 1.14 | 15,155 | 15,941 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | 1.14 | 5,194 | 3,111 |
| Enillion heb eu gwireddu ar y gronfa fuddsoddiadau wrth gefn | 1.14 | 1,094 | 834 |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** | | **21,443** | **19,886** |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Aelodau'r Cyngor ac fe'u llofnodwyd ar eu rhan ar 18 Mehefin 2014 gan:

William Moyes

Evlynne Gilvarry

# Datganiad llif arian

16

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

| | Nodyn | 2013 £'000 | Ailddatgan 2012 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| (Diffyg)/gwarged o weithgareddau gweithredu | I&E | (1,127) | 2,147 |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | | 827 | 732 |
| Colled ar waredu eiddo, offer a chyfarpar | | 56 | 4 |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 15 | 69 | (282) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn eitemau masnach taladwy a rhwymedigaethau eraill | 17 | 1,818 | (499) |
| Symudiadau ariannu'r gronfa bensiwn wrth gefn | 19 | (58) | (3) |
| Treth ohiriedig | 11 | (137) | (40) |
| Defnydd o ddarpariaethau | 18 | (83) | 8 |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **1,365** | **2,067** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 12 | (963) | (99) |
| Prynu asedau anghyffyrddadwy | 13 | (328) | (778) |
| Enillion o werthu asedau | | 1 | 0 |
| Enillion o werthu asedau ariannol | 14 | 204 | 99 |
| Prynu asedau ariannol | 14 | (212) | (12,086) |
| Incwm buddsoddi | 4 | 555 | 363 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(743)** | **(12,501)** |
| Treth a dalwyd | | (19) | (126) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn y cyfnod** | | **(603)** | **10,560** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 16 | **25,851** | **36,411** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 16 | **26,454** | **25,851** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) neu mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod** | | **603** | **(10,560)** |

# Datganiadau o newidiadau i gronfeydd wrth gefn

17

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

| | Nodyn | Cronfa gyffredinol wrth gefn £'000 | Cronfa bensiwn wrth gefn £'000 | Enillion heb eu gwireddu ar y gronfa fuddsoddiadau wrth gefn £'000 | Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2011** | | **13,600** | **2,540** | **404** | **16,544** |
| **Newidiadau i gronfeydd wrth gefn yn 2012** | | | | | |
| Cyfanswm incwm cyffredinol ar y flwyddyn | I&E | 2,344 | – | – | 2,344 |
| Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | 19 | - | 568 | – | 568 |
| Trosglwyddiadau wrth gefn | | (3) | 3 | – | – |
| Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | | - | – | 430 | 430 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2012** | | **15,941** | **3,111** | **834** | **19,886** |
| **Newidiadau i gronfeydd wrth gefn yn 2013** | | | | | |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn | I&E | (728) | – | – | (728) |
| Newid i'r gronfa bensiwn wrth gefn | 19 | - | 2,025 | – | 2,025 |
| Trosglwyddiadau wrth gefn | | (58) | 58 | – | – |
| Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | 14 | - | – | 260 | 260 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2013** | | **15,155** | **5,194** | **1,094** | **21,443** |

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1 Polisïau cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'u diwygiwyd ar ôl cynnwys buddsoddiadau ar sail eu gwerth ar y farchnad, yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE, gan ystyried egwyddorion a datgeliadau cyfrifyddu Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'u rhoi ar waith yn gyson, ac fe'u nodir isod.

Sefydlwyd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gan ddeddf Seneddol ym 1956 ac fe'i lleolir yn y Deyrnas Unedig. Lleolir prif swyddfa'r Cyngor yn 37 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ. Cyflwynir  datganiadau ariannol yn arian cyfred gweithredol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol sef mewn punnoedd.

### 1.1 Fformat y cyfrifon

Gofynnir i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol baratoi ei gyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Rhaid i'r Cyfrin Gyngor gyflwyno'r cyfrifon ardystiedig gerbron dau Dŷ'r Senedd a Senedd yr Alban. Nodir diben statudol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yng nghyflwyniad yr Adroddiad Blynyddol.

### 1.2 Safonau, diwygiadau a dehongliadau i safonau a gyhoeddwyd ond nas gweithredwyd eto

Mae'r Cyngor wedi asesu'r safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau canlynol sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto, ac mae wedi penderfynu peidio â'u mabwysiadu cyn y dyddiad pan fydd angen eu mabwysiadu ar y sail na fyddai'r newidiadau'n cael unrhyw effaith, neu effaith ansylweddol, ar y cyfrifon hyn ac na fyddent yn darparu gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo'r darllenydd:

- IFRS 9 Offerynnau Ariannol – dyddiad gweithredu: cyfnodau ariannol yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015, heb eu cymeradwyo eto gan yr UE. Mae IFRS 9 yn symleiddio'r gwaith o ddosbarthu a mesur asedau ariannol.

Mae'r Cyngor yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau hyn yn cael effaith sylweddol ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol na'r canlyniadau ar gyfer 2012 a 2013.

### 1.3 Amcangyfrifon a phenderfyniadau cyfrifyddu critigol

Er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'n rhaid i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wneud rhai amcangyfrifon a phenderfyniadau sy'n cael effaith ar y polisïau a'r symiau sy'n cael eu hadrodd yn y cyfrifon blynyddol. Mae'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau'n seiliedig ar brofiadau hanesyddol a ffactorau eraill gan gynnwys disgwyliadau yn ymwneud â digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol adeg gwneud y cyfryw amcangyfrifon a phenderfyniadau. Mae'n bosibl y bydd yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sydd â'r perygl mwyaf sylweddol o achosi newid sylweddol i'r symiau o asedau a rhwymedigaethau i'w cario yn cael eu trafod isod:

# 18

**i) Buddion pensiwn**
Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymdrin â phensiynau yn unol ag IAS 19 Buddion Gweithwyr Cyflogedig. Wrth benderfynu ar gost y pensiwn a rhwymedigaeth buddion diffiniedig cynllun pensiwn buddion diffiniedig y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, defnyddir nifer o ragdybiaethau gan gynnwys y gyfradd ddisgownt, y twf mewn cyflogau, chwyddiant prisiau, enillion disgwyliedig o fuddsoddiadau'r cynllun a chyfraddau marwolaeth. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu IAS 19 (2011) sy'n weithredol ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2013. Mae'r rhagdybiaethau'n cael eu cytuno gyda'r actiwari cymwysedig a'u defnyddio i gyfrifo'r ddarpariaeth bensiwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn nodyn 19 i'r cyfrifon.

**ii) Dibrisio ac amorteiddio**
Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymdrin â dibrisio ac amorteiddio yn unol ag IAS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar ac IAS 38 Asedau Anghyffyrddadwy. Mae'r gost ddibrisio ac amorteiddio yn cydnabod y gostyngiad yng ngwerth yr ased ac yn dyrannu cost yr ased dros y cyfnodau y caiff yr ased ei ddefnyddio. Gwneir penderfyniadau ar sail amcangyfrif o oes ddefnyddiol yr asedau, ac fe'u hadolygir yn rheolaidd i adlewyrchu'r amgylchedd newidiol.

**iii) Darpariaethau**
Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ymdrin â darpariaethau yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn. Mae'r darpariaethau'n seiliedig ar amcangyfrifon o werth a bennir gan briswyr cymwysedig priodol. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y polisi cyfrifyddu ar y darpariaethau isod ac yn nodyn 18 i'r cyfrifon.

## 1.4 Busnes gweithredol

Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi adolygu ei ragolygon o weithrediadau a llif arian ar gyfer y 12 mis nesaf. Mae'r Cyngor Deintyddol yn credu ei bod hi'n briodol paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar sail busnes gweithredol.

## 1.5 Eiddo, Offer, Cyfarpar ac Asedau Anghyffyrddadwy

Mae Asedau Anghyffyrddadwy Sefydlog yn cael eu nodi fel Eiddo, Offer a Chyfarpar o dan IAS 16. Lle bo hynny'n briodol, mae asedau meddalwedd a datblygu Technoleg Gwybodaeth wedi'u hailddosbarthu fel Asedau Anghyffyrddadwy o dan IAS 38.

Cedwir asedau sy'n cael eu creu ar y dyddiad cyfrifyddu ar sail cost nes eu bod yn gallu bod yn weithredol, pan gânt eu trosglwyddo i'r dosbarth asedau anghyfredol y maent yn perthyn iddo.

Nodir eiddo, offer, cyfarpar ac asedau anghyffyrddadwy ar sail cost, ar ôl ystyried gwerth dibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lleihad. Dim ond pan fo cost yr ased neu'r grŵp o asedau a gaffaelwyd yn fwy na £1,000 y caiff gwariant ei gyfalafu.

# Nodiadau i'r cyfrifon

parhad

### 1.6 Dibrisio ac amorteiddio

Diben dibrisio ac amorteiddio yw dileu cost yr asedau anghyfredol yn gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Mae cost dibrisio ac amorteiddio wedi'i gynnwys yn llinell wariant gweinyddiaeth y cyfrif incwm a gwariant o dan incwm a gwariant cynhwysfawr.  Dyma'r oesau defnyddiol:

(a) Dibrisir gwaith adeiladu'r Cyngor mewn adeiladau ar lesddaliad hir yn 37/38 Wimpole Street a 13/15 Wimpole Mews dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig neu weddill y brydles.

(b) Dibrisir gwaith ailwampio a holl waith gwella'r lesddaliad yn 37/38 Wimpole Street, Llundain W1G 8DQ, 13/15 Wimpole Mews a'r ail lawr, 44 Baker Street, Llundain W1U 7AL dros weddill y brydles - 20 mlynedd neu 10 mlynedd - neu, os yn llai na hynny, dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig.

(c) Dangosir oes asedau eraill isod.

| | |
|---|---|
| – dodrefn a ffitiadau | hyd at 10 mlynedd |
| – offer a chyfarpar | hyd at 25 mlynedd |
| – cyfarpar TG | hyd at 4 blynedd |
| – meddalwedd, trwyddedau sicrwydd meddalwedd | hyd at 5 mlynedd |

Adolygir cyfraddau dibrisio yn rheolaidd i gymharu oes wirioneddol asedau â chyfraddau'r polisi cyfrifyddu.

### 1.7 Lleihad

Ar ddyddiad pob mantolen, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn adolygu symiau cario ei asedau i bennu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau wedi lleihau mewn gwerth. Os ceir arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adferadwy'r ased er mwyn pennu graddfa'r colledion lleihad. Caiff colledion lleihad eu cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant ar unwaith.

Pan fo cynnydd dilynol yn swm adferadwy asedau yn sgil newid yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i bennu'r swm adferadwy, mae'n cael ei ystyried fel gwrthdroad o'r colledion lleihad blaenorol ac yn cael ei gydnabod i'r un graddau â swm cario'r asedau a fyddai wedi'i bennu (gan ystyried amorteiddiad a dibrisiant) pe na bai colledion lleihad wedi'u cydnabod. Cydnabyddir y gwrthdroad yn y cyfrif incwm a gwariant ar unwaith.

### 1.8 Gwariant

Cyfrifir gwariant ar sail croniadau ar ôl derbyn y nwyddau neu gyflawni'r gwasanaeth. Caiff TAW anadferadwy ei gynnwys gyda'r eitem o wariant y mae'n berthnasol iddi.

### 1.9 Incwm

Cyfrifir pob incwm pan fydd digon o sicrwydd dros hawl, swm a derbynneb.

Mae'r holl ffioedd o gofrestriadau deintyddion yn cael eu gohirio tan ddechrau'r cyfnod cofrestru y mae'r ffioedd yn gysylltiedig ag ef. 1 Ionawr i 31 Rhagfyr yw'r cyfnod cofrestru ar gyfer deintyddion.

Cydnabyddir yr holl ffioedd cofrestru gan weithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn llawn yn y flwyddyn ariannol pan dderbynnir yr incwm. 1 Awst i 31 Gorffennaf yw'r cyfnod cofrestru ar gyfer Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol.

Cydnabyddir ffioedd a dderbynnir mewn perthynas ag Arholiadau Cofrestru Tramor pan fo'r arholiadau'n cael eu sefyll.

Cydnabyddir ffioedd amrywiol, gwerthiannau eraill ac incwm arall pan ddarperir y nwyddau neu'r gwasanaethau cysylltiedig.

Cydnabyddir incwm o fuddsoddiadau pan fo difidendau neu log yn ddyledus ac fe'i cofnodir fel swm sy'n cynnwys y dreth adferadwy.

### 1.10 Prydlesi ariannol

Adolygir telerau holl brydlesi'r Cyngor a phan fo manteision a pheryglon perchnogaeth yn nwylo'r Cyngor, ystyrir prydlesi yn brydlesi ariannol. Mae gwerthoedd cyfalaf prydlesi ariannol, ynghyd â gwerth cyfredol ad-daliadau cyfalaf yn y dyfodol yn cael eu nodi fel asedau a rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

Caiff prydlesi ar wahân i brydlesi ariannol eu nodi fel prydlesi gweithredol. Caiff prydlesi gweithredol eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar sail linol dros dymor y brydles, gan ystyried unrhyw gymhellion prydles yn unol â thelerau ISA 17.

Mae'r Cyngor hefyd yn adolygu pob contract gwasanaeth i bennu a yw'r contractau'n cynnwys prydles ariannol o dan delerau IAS 17 fel y'u dehonglir gan IFRIC 4.

### 1.11 Trethu

Caiff y Cyngor ei drethu fel sefydliad cydfuddiannol ac felly caiff ei drethu ar ffynonellau allanol o incwm yn unig. Yn hanesyddol, incwm o fuddsoddiadau oedd hyn.

Cydnabyddir treth ohiriedig ar bob gwahaniaeth trethadwy dros dro. Fodd bynnag, ni ddarperir treth ohiriedig pan gydnabyddir ased neu rwymedigaeth yn y lle cyntaf oni bai fod y trafodyn cysylltiedig yn effeithio ar dreth neu elw cyfrifo. Hefyd, cydnabyddir ased treth ohiriedig ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro i'w ddidynnu i'r graddau ei bod yn debygol y bydd yr elw trethadwy ar gael ac y gellir defnyddio'r gwahaniaeth dros dro i'w ddidynnu yn ei erbyn. Mesurir asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig ar y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn gymwys yng nghyfnod gwireddu'r ased neu pan gaiff y rhwymedigaeth ei setlo. Mae'r mesuriad hefyd yn seiliedig ar y canlyniadau treth o adennill neu setlo swm cario asedau a rhwymedigaethau. Cydnabyddir newidiadau mewn asedau neu rwymedigaethau treth ohiriedig fel elfen o gostau treth yn y cyfrif incwm a gwariant.

# Nodiadau i'r cyfrifon

parhad

## 1.12 Cynlluniau pensiwn

Mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn cyfrannu at gynllun pensiwn buddion diffiniedig ar gyfer ei weithwyr. Cedwir asedau'r cynllun ar wahân i rai'r Cyngor a chânt eu buddsoddi fel y disgrifir yn nodyn 19.

Caiff costau gwasanaeth cyfredol y cynllun pensiwn buddion diffiniedig a chostau net llog y cynllun a'r elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun ar gyfer y flwyddyn eu cynnwys o fewn costau pensiwn y cyfrif incwm a gwariant. Cydnabyddir enillion a cholledion actiwaraidd yn syth o fewn incwm cynhwysfawr arall.

Mesurir asedau'r cynllun buddion diffiniedig yn ôl gwerth teg ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun ar sail actiwaraidd ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau a'u disgowntio ar gyfradd sy'n gyfwerth â chyfradd adennill gyfredol bond corfforaethol o safon uchel sydd â thelerau tebyg i rwymedigaethau'r cynllun. Nodir ased neu rwymedigaeth y buddion diffiniedig terfynol ar wahân yn y datganiad o sefyllfa ariannol.

Sefydlodd y Cyngor gynllun cyfraniadau diffiniedig, ond cedwir yr asedau'n gwbl annibynnol ar y rheiny yng nghynllun y Cyngor. Ni chaiff y cynllun ei gontractio allan o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth. Mae cyfrannu'n wirfoddol a bydd y Cyngor yn gwneud cyfraniadau cyfatebol hyd at 5% o'r cyflog pensiynadwy i unrhyw weithiwr sy'n penderfynu ymuno â'r cynllun.

Mae cyfraniadau i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig yn cael eu cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt ddod yn ddyledus.

## 1.13 Asedau ariannol

### Asedau ariannol

Mae'r Cyngor yn dosbarthu ei holl asedau ariannol i asedau ariannol am werth teg drwy elw neu golled. Isod, mae'r mathau o asedau o fewn y categori, yn dibynnu ar y diben y cafwyd yr ased ar ei gyfer.

**Buddsoddiadau ar gael i'w gwerthu:** mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau o warantau rhestredig, gwarantau llog sefydlog, ecwitïau ac ymddiriedolaethau unedol sy'n gronfa a reolir ac yn cynnwys portffolio cymysg o warantau rhestredig ac adneuon arian parod. Caiff y rhain eu trin fel buddsoddiadau anghyfredol sydd ar gael i'w gwerthu a'u cynnwys ar sail gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gwerth teg y buddsoddiadau'n seiliedig ar y pris cynnig terfynol a ddyfynnwyd ar y dyddiadau cyfrifyddu.

Mae enillion a cholledion sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth y farchnad wedi'u cynnwys o fewn incwm cynhwysfawr arall, ac yn cael eu rhoi yn y gronfa ailbrisio buddsoddiadau. Wrth eu gwaredu, mae'r cynnydd neu'r golled gronnus a gydnabuwyd yn flaenorol yn y cronfeydd wrth gefn yn cael ei ailddosbarthu i'r cyfrif incwm a gwariant.

**Masnach a symiau derbyniadwy eraill:** asedau ariannol anneilliadol yw'r rhain gyda thaliadau sefydlog neu fesuradwy nad ydynt wedi'u dyfynnu mewn marchnad actif. Maent yn deillio'n bennaf drwy ddarpariaeth gwasanaethau, ond maent hefyd yn ymgorffori mathau eraill o asedau ariannol cytundebol. Maent yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ynghyd â chostau trafodion cysylltiedig y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r broses o'u caffael neu eu dyrannu, ac sy'n cael eu cario wedi hynny am y gwerth a anfonebwyd neu'r gost amorteiddio drwy ddefnyddio dull cyfradd llog effeithiol, wedi tynnu'r ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth. Datgelir gwerth yr asedau hyn yn nodyn 15.

# 18

**Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod:** mae'r rhain yn cynnwys arian mewn llaw, adneuon a gaiff eu dal ar gais gyda banciau.

**Rhwymedigaethau ariannol**

Mae'r Cyngor yn dosbarthu ei holl rwymedigaethau ariannol i rwymedigaethau ariannol ar sail gwerth teg drwy elw neu golled. Isod, mae'r mathau o rwymedigaethau o fewn y categori, yn dibynnu ar y diben y cafwyd y rhwymedigaeth ar ei gyfer.

**Masnach a symiau taladwy eraill:** mae'r rhain yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth teg ac yna'u cario am werth a anfonebwyd neu'r gost amorteiddio. Mae'r rhain yn deillio'n bennaf o dderbyn nwyddau a gwasanaethau. Datgelir gwerth y rhwymedigaethau hyn yn nodyn 17.

**Darpariaethau:** cydnabyddir darpariaeth yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol pan fo gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol gyfredol yn sgil digwyddiad yn y gorffennol, a'i bod yn debygol y bydd angen all-lif o fanteision economaidd i setlo'r rhwymedigaeth ac y gellir sicrhau amcangyfrif dibynadwy o'r all-lif o fanteision economaidd.

(i) **Costau Ymddeoliad Cynnar:** Mae'r Cyngor yn talu costau ychwanegol buddion y tu hwnt i'r cynllun buddion diffiniedig arferol i weithiwr a ymddeolodd yn gynnar ar sail feddygol. Talwyd swm o arian bob blwyddyn gydag amodau, i'r gweithiwr am y cyfnod rhwng gadael yn gynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Cyrhaeddodd y gweithiwr oedran ymddeol eleni a thalwyd gweddill y ddarpariaeth i ymddiriedolwyr y pensiwn i brynu blwydd-dâl.

(ii) **Dadfeiliadau:** Mae'r ddarpariaeth yn ymwneud â chydymffurfio â chymalau prydlesi adeiladau a ddefnyddir gan y Cyngor. Mae darpariaethau dadfeiliadau'r Cyngor yn cael eu cyfrifo ar sail amcangyfrif o gost gwariant y dyfodol, er mwyn setlo rhwymedigaethau mewn perthynas â chymalau prydlesi. Mae'r Cyngor wedi darparu'n llawn ar gyfer hyn. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei hailbrisio'n rheolaidd gan brisiwr allanol cymwys.

## 1.14 Cronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn cynnwys y canlynol:

**Cronfa gyffredinol wrth gefn**
Cynrychioli'r canlyniadau argadwedig ar ôl trosglwyddo enillion a cholledion actiwaraidd ar asedau a/neu rwymedigaethau cynllun pensiwn ac enillion/colledion heb eu gwireddu ar fuddsoddiad.

**Cronfa bensiwn wrth gefn**
Cynrychioli enillion a cholledion actiwaraidd ar asedau'r cynllun pensiwn sy'n deillio o ailbrisio darpariaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ased/rhwymedigaeth cynllun pensiwn buddion diffiniedig.

**Enillion heb eu gwireddu ar y gronfa fuddsoddiadau wrth gefn**
Cynrychioli enillion a cholledion heb eu gwireddu sy'n deillio o ailbrisio buddsoddiadau dros eu cost hanesyddol.

# Nodiadau i'r cyfrifon

parhad

### 1.15 Offerynnau ariannol

Amlinellir manylion y categorïau amrywiol o asedau ariannol yn nodyn 14 i nodyn 16. Amlinellir y categorïau amrywiol o rwymedigaethau ariannol yn nodiadau 17 ac 18.

**Risg credyd**
Bod yn agored i risg credyd yw'r risg y bydd un parti i offeryn ariannol yn methu cyflawni rhwymedigaeth ac yn achosi colled ariannol i barti arall. Ni ystyrir bod hyn yn arwyddocaol. Nid yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn defnyddio offerynnau ariannol sy'n cynyddu ei broffil risg credyd ei hun ac nid yw'n agored i ddyled allanol. Mae'n defnyddio mesurau lliniaru risg amrywiol, gan gynnwys asesiadau credyd-raddio i asesu risg credyd gwrth-bartïon, gan gynnwys cyflenwyr a sefydliadau ariannol.

**Perygl hylifedd**
Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau ar hyn o bryd ac mae'n dibynnu'n bennaf ar ffioedd ar gyfer ei ofynion arian parod. Mae'r balansau arian yn gylchol ac yn cyrraedd uchafbwynt ym mis Rhagfyr/Ionawr a Gorffennaf/Awst. Mae lefelau cyllid arian parod yn lleihau rhwng y cyfnodau hyn gan fod derbynebau'r Cyngor ar eu huchaf ym mis Rhagfyr, pan fo deintyddion yn talu eu ffi cadw blynyddol ac ym mis Gorffennaf, pan fo gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn talu eu ffioedd cadw blynyddol. Mae gwariant y Cyngor yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal gydol y flwyddyn. Felly, nid yw'r Cyngor yn credu ei fod yn agored iawn i berygl hylifedd.

**Risg arian cyfred**
Mae pob ased a rhwymedigaeth sylweddol yn cael eu trafod mewn Sterling, felly nid yw'n agored i risg arian cyfred. Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol bolisi cronfeydd wrth gefn. Yn sgil cylchoedd adnewyddu cofrestriadau a dulliau talu ffioedd cofrestru, mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol swm sylweddol o arian mewn cyfrifon cadw tymor byr i dalu'r gwariant a ddisgwylir dros y cyfnod talu.

**Risg cyfraddau llog**
Mae pawb sy'n cofrestru yn talu ffioedd ymlaen llaw. Mae cronfeydd gwarged yn cael eu cadw fel a ganlyn:

**Adnau tymor sefydlog** – mae mwyafrif y cronfeydd gwarged yn cael eu cadw yn y farchnad arian tymor byr. Mae'r Cyngor yn chwilio am gyfraddau cystadleuol ar fuddsoddiadau marchnad arian.

**Buddsoddiadau** – Buddsoddir gweddill y cronfeydd mewn portffolio o ecwitïau ac ymddiriedolaethau unedol lle mae yna risg o leihad mewn gwerth drwy'r amser.

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r marchnadoedd ariannol gan ddefnyddio strategaeth fuddsoddi sy'n osgoi risg a cholled ddiangen i gyfrifoldebau rheoleiddio'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Ym mis Rhagfyr 2011, cymeradwyodd y Cyngor ddatganiad diwygiedig o egwyddorion buddsoddi, lle bydd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ceisio cyflawni portffolio risg o fuddsoddiadau er mwyn ceisio cyflawni enillion ar fuddsoddiadau sy'n cyd-fynd yn fras â chwyddiant.

Ni ystyrir bod y risg cyfraddau llog yn un sylweddol o ran bod y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn dibynnu ar incwm llog i raddau helaeth i ariannu ei weithredoedd.

18

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### 2 Incwm

| | 2013 | 2013 | 2012 |
|---|---|---|---|
| | Nifer | £'000 | £'000 |
| **Ffioedd** | | | |
| **Deintyddion** | | | |
| Cyfanswm cofrestru newydd | 1,904 | 558 | 568 |
| Cofrestru dros dro | 84 | 49 | 86 |
| Cadw | 38,605 | 22,237 | 21,923 |
| Adfer ar ôl dileu | 294 | 35 | 33 |
| **Cyfanswm** | **40,887** | **22,879** | **22,610** |
| **Gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol** | | | |
| Cyfanswm cofrestru newydd | 4,849 | 343 | 391 |
| Cadw | 61,309 | 7,357 | 7,126 |
| Adfer ar ôl dileu | 1,098 | 26 | 30 |
| **Cyfanswm** | **67,256** | **7,726** | **7,547** |
| **Arbenigwyr** | | | |
| Cofrestru arbenigwyr | 231 | 78 | 85 |
| Ffi cadw blynyddol arbenigwyr | 4,122 | 297 | 289 |
| Ffi adfer arbenigwyr | 15 | – | – |
| **Cyfanswm** | **4,368** | **375** | **374** |
| **Cyfanswm ffioedd** | | **30,980** | **30,531** |

Mae'r ffigurau uchod yn dangos faint o weithwyr cofrestredig sy'n talu ffioedd yn ystod y flwyddyn ac nid nifer y gweithwyr cofrestredig sydd ar y gofrestr ar 31 Rhagfyr 2013.

### 3 Incwm amrywiol

| | | |
|---|---|---|
| Ffioedd arholiadau | 1,803 | 1,660 |
| Incwm gweithredu arall | 12 | 8 |
| | **1,815** | **1,668** |

### 4 Incwm buddsoddi

| | | |
|---|---|---|
| Llog adneuon banc | 89 | 216 |
| Difidendau – gwarantau rhestredig | 466 | 147 |
| | **555** | **363** |

# Nodiadau i'r cyfrifon

parhad

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### 5 Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

| | 2013 | | | wedi'i ailddatgan 2012 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff cyflogedig parhaol £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **Costau staff yn cynnwys:** | | | | |
| Cyflogau | 9,213 | – | 9,213 | 8,251 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 974 | – | 974 | 870 |
| Costau pensiwn | 1,176 | – | 1,176 | 1,180 |
| Costau staff eraill | 1,436 | – | 1,436 | 903 |
| **Is-gyfanswm** | **12,799** | – | **12,799** | **11,204** |
| Staff dros dro | – | 482 | 482 | 254 |
| **Cyfanswm** | **12,799** | **482** | **13,281** | **11,458** |

#### (a) Gweithwyr - Niferoedd

| | 2013 | | | 2012 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff cyflogedig parhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau | 84 | 3 | 87 | 69 |
| Cofrestru | 60 | 2 | 62 | 61 |
| Rheoli polisi a rhanddeiliaid | 14 | – | 14 | 15 |
| Llywodraethu | 12 | – | 12 | 13 |
| Sicrhau Ansawdd | 10 | – | 10 | 10 |
| Gwasanaeth Cwynion Deintyddol | 10 | – | 10 | 9 |
| Gwasanaethau corfforaethol | 39 | 1 | 40 | 43 |
| **Cyfanswm** | **229** | **6** | **235** | **220** |

#### (b) Gweithwyr - Tâl

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| £60,000 ond o dan £70,000 | 9 | 8 |
| £70,000 ond o dan £80,000 | 2 | 1 |
| £80,000 ond o dan £90,000 | 2 | 2 |
| £90,000 ond o dan £100,000 | 2 | 2 |
| £100,000 ond o dan £110,000 | 2 | 1 |
| £110,000 ond o dan £120,000 | 1 | 1 |
| £120,000 ond o dan £130,000 | – | 1 |
| £130,000 ond o dan £140,000 | – | – |
| £140,000 ond o dan £150,000 | – | – |
| £150,000 ond o dan £160,000 | 1 | – |

| | Enillion | | Pensiwn cronnus | |
|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2012 | 2013 | 2012 |
| **Prif Weithredwr a Chofrestrydd – Tâl** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Evlynne Gilvarry | 153 | 134 | 33 | 32 |

# 18

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### 6 Costau gweinyddol eraill

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau cyfreithiol a phroffesiynol** | | |
| Tâl a threuliau'r Archwilydd: | | |
| Archwiliad allanol | 20 | 19 |
| Archwiliad allanol – y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | 3 | 3 |
| Archwiliad mewnol | 70 | 73 |
| Gwrandawiadau ymddygiad | 3,802 | 5,163 |
| Ffioedd a chostau eraill | 3,931 | 2,999 |
| Treuliau eraill | 1,952 | 1,875 |
| **Cyfanswm** | **9,778** | **10,132** |

| | 2010 | 2009 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y gwasanaethau canlynol ar wahân i archwilio gan yr archwilydd allanol haysmacintyre: | | |
| Cyngor ar dreth gorfforaethol | 3 | 3 |
| | **3** | **3** |

### 7 Cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **(a) Ffioedd a threuliau'r Cyngor** | | |
| Ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Cyngor | 207 | 261 |
| Treuliau a dalwyd i Aelodau'r Cyngor | 179 | 199 |
| Treuliau cyfarfodydd y Cyngor | 161 | 101 |
| | **547** | **561** |
| **(b) Ffioedd a threuliau pwyllgorau a phaneli** | | |
| Ffioedd a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli | 2,210 | 1,927 |
| Treuliau a dalwyd i aelodau pwyllgorau a phaneli | 853 | 743 |
| Ffioedd a threuliau proffesiynol ar gyfer pwyllgorau a phaneli | 917 | 754 |
| Treuliau cyfarfodydd pwyllgorau a phaneli | 1,987 | 1,156 |
| | **5,967** | **4,580** |
| **Cyfanswm cyfarfodydd y Cyngor a phwyllgorau** | **6,514** | **5,141** |

# Nodiadau i'r cyfrifon

parhad

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### Treuliau gweinyddol

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Dibrisiant | 458 | 490 |
| Amorteiddiad | 369 | 242 |
| Colledion yn sgil gwaredu eiddo, offer a chyfarpar | 56 | 4 |
| Darpariaethau: | | |
| Symudiad mewn darpariaeth dadfeiliad | – | 12 |
| Rhentu dan brydlesi gweithredol: | | |
| Llogi peiriannau swyddfa | 39 | 54 |
| Prydlesi adeiladu | 713 | 351 |
| Taliadau llog | 1 | 1 |
| Cymorth a chynnal a chadw technoleg gwybodaeth | 650 | 514 |
| Costau personél | 54 | 49 |
| Costau gweithredu eraill | 595 | 534 |
| | **2,935** | **2,251** |

### 9 Llety

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| Costau llety eraill | 741 | 706 |
| | **741** | **706** |

### 10 Cyfathrebiadau a Chyhoeddiadau

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| Cyfanswm Cyfathrebiadau a Chyhoeddiadau | 673 | 777 |
| | **673** | **777** |

# 18

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### 11 Trethi

| (a) Dadansoddiad o'r trethi a godir | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Trethi cyfredol** | | |
| Treth gorfforaethol y DU ar elw'r flwyddyn | 19 | 126 |
| Credyd treth dybiannol ar incwm difidend | – | – |
| **Cyfanswm trethi cyfredol a godir** | **19** | **126** |
| | | |
| **Treth ohiriedig** | | |
| Tarddiad a gwrth-droi gwahaniaethau amseriad | 137 | 40 |
| **Cyfanswm treth ohiriedig** | **137** | **40** |
| **Treth ar elw ar weithgareddau cyffredin** | **156** | **166** |

#### (b) Ffactorau sy'n effeithio ar y trethi a godir am y cyfnod

Caiff y Cyngor ei drethu fel sefydliad cydfuddiannol ac felly caiff ei drethu ar ffynonellau incwm allanol yn unig. Yn hanesyddol incwm o fuddsoddiadau oedd hyn.

| Ffactorau sy'n effeithio ar drethi a godir am y cyfnod | | |
|---|---|---|
| Elw am y flwyddyn | (572) | 2,351 |
| Cost ddisgwyliedig ar sail 20% (2012: 25%) | (114) | 588 |
| **Effeithiau:** | | |
| Gwahaniaeth rhwng cyfradd treth wirioneddol a chyfradd y brif dreth gorfforaethol | – | (12) |
| Incwm di-dreth | 197 | (510) |
| Symudiad ym malans y dreth ohiriedig | 137 | 40 |
| Treth ar gydraddoli a chynnydd yng ngwerth buddsoddiadau llog penodol | (64) | 60 |
| **Treth a godir y flwyddyn hon** | **156** | **166** |

# Nodiadau i'r cyfrifon

parhad

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### 12 Eiddo, offer a chyfarpar

| | 2013 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Eiddo ar les | Offer a chyfarpar | Dodrefn a gosodiadau | TG | Asedau sy'n cael eu creu | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2013 | 4,781 | 682 | 334 | 618 | 34 | 6,449 |
| Ychwanegiadau | 12 | 2 | 19 | 165 | 765 | 963 |
| Gwarediadau | (4) | (112) | (20) | – | – | (136) |
| **Ar 31 Rhagfyr 2013** | **4,789** | **572** | **333** | **783** | **799** | **7,276** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2013 | 2,887 | 384 | 227 | 369 | – | 3,867 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 233 | 54 | 47 | 124 | – | 458 |
| Gwarediadau | (3) | (60) | (16) | – | – | (79) |
| **Ar 31 Rhagfyr 2013** | **3,117** | **378** | **258** | **493** | **–** | **4,246** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2013** | **1,672** | **194** | **75** | **290** | **799** | **3,030** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2012** | **1,894** | **298** | **107** | **249** | **34** | **2,582** |

# 18

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### 13 Asedau anghyffyrddadwy

| | 2013 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Meddalwedd | Trwyddedau | Asedau sy'n cael eu creu | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2013 | 773 | 501 | 575 | 1,849 |
| Ychwanegiadau | 44 | 61 | 223 | 328 |
| Trosglwyddiadau | 686 | – | (686) | – |
| Gwarediadau | | – | | – |
| **Ar 31 Rhagfyr 2013** | **1,503** | **562** | **112** | **2,177** |
| **Amorteiddiad** | | | | |
| Ar 1 Ionawr 2013 | 276 | 356 | – | 632 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 292 | 77 | – | 369 |
| Gwarediadau | | – | | – |
| **Ar 31 Rhagfyr 2013** | **568** | **433** | **–** | **1,001** |
| **Gwerth llyfr net:** | | | | |
| **Ar 31 Rhagfyr 2013** | **935** | **129** | **112** | **1,176** |
| **Ar 31 Rhagfyr 2012** | **497** | **145** | **575** | **1,217** |

# Nodiadau i'r cyfrifon

parhad

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### 14 Asedau ariannol – asedau ar gael i'w gwerthu

| | 2013 | | |
|---|---|---|---|
| | Ecwitïau £'000 | Gwarantau Llog Penodol £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2012** | **2,755** | **10,241** | **12,996** |
| Ychwanegiadau | 212 | – | 212 |
| Trosglwyddiadau | – | – | – |
| Gwarediadau | (198) | (6) | (204) |
| **Cyfanswm** | 2,769 | 10,235 | 13,004 |
| Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiadau | 573 | (313) | 260 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2013** | **3,342** | **9,922** | **13,264** |

Incwm a gynhyrchwyd o'r asedau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013: Ecwitïau £79,566 a Gwarantau Llog Penodol £386,401. Mae'r asedau ariannol uchod wedi'u dyfynnu mewn marchnad weithredol ac wedi'u cynnwys ar sail eu gwerth ar y farchnad. Mae'r holl asedau ariannol uchod yn cael eu trin fel rhai lefel 1 at ddibenion datgelu o dan IFRS7, gan fod yr holl symiau wedi'u pennu trwy gyfeirio at y prisiau a ddyfynnwyd mewn marchnad weithredol.

### 15 Derbyniadau masnach ac asedau cyfredol eraill

| | 31 Rhag 2013 £'000 | 31 Rhag 2012 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau dyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Derbyniadau masnach | 47 | 15 |
| Derbyniadau eraill | 112 | 109 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 482 | 586 |
| **Cyfanswm** | **641** | **710** |

Dyledion cyfredol yw'r rhain, ac nid oes unrhyw symiau dyledus o'r gorffennol ond nid oes lleihad mewn gwerth. Nid oes darpariaeth ar gyfer drwgddyledion. Nid oes unrhyw asedau ariannol wedi colli gwerth.

18

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### 16 Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

| | 2013<br>£'000 | 2012<br>£'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ionawr | 25,851 | 36,411 |
| Newid net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod | 603 | (10,560) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr** | **26,454** | **25,851** |

| | 2013<br>£'000 | 2012<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Roedd y balansau canlynol wedi'u cadw mewn:** | | |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 8,413 | 7,576 |
| Adneuon banc tymor byr | 18,041 | 18,275 |
| **Cyfanswm** | **26,454** | **25,851** |

### 17 Taliadau masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Rhag 2013<br>£'000 | 31 Rhag 2012<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Symiau dyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Treth gorfforaethol | 18 | 113 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 433 | 394 |
| Taliadau masnach | 1,542 | 1,089 |
| Taliadau eraill | 8 | 25 |
| Croniadau | 2,893 | 2,133 |
| Incwm gohiriedig | 22,988 | 22,436 |
| Cymhelliant gweithredol gohiriedig | 11 | 11 |
| Rhan gyfredol o brydlesi ariannol | – | – |
| **Cyfanswm** | **27,893** | **26,201** |
| **Symiau dyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Cymhelliant gweithredol gohiriedig | 34 | 45 |
| Treth ohiriedig | 254 | 117 |
| | **288** | **162** |
| **Cyfanswm** | **28,181** | **26,363** |

Ni thalwyd llog yn ystod y flwyddyn dan Ddeddf Hwyr-dalu Dyledion Masnach (Llogau) 1998.

# Nodiadau i'r cyfrifon

parhad

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### 18 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | 2013 | | |
|---|---|---|---|
| | Darpariaeth ymddeoliad cynnar | Dadfeiliadau adeiladau | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ionawr 2013 | 83 | 135 | 218 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | – | – | – |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (83) | – | (83) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2013** | **–** | **135** | **135** |
| Rhwymedigaeth gyfredol | – | – | – |
| Rhwymedigaeth anghyfredol | – | 135 | 135 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2013** | **–** | **135** | **135** |

| | 2012 | | |
|---|---|---|---|
| | Darpariaeth ymddeoliad cynnar | Dadfeiliadau adeiladau | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ionawr 2012 | 87 | 123 | 210 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | – | 12 | 12 |
| Ôl-gofnodwyd | – | – | – |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (4) | – | (4) |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2012** | **83** | **135** | **218** |
| Rhwymedigaeth gyfredol | 83 | – | 83 |
| Rhwymedigaeth anghyfredol | – | 135 | 135 |
| **Balans ar 31 Rhagfyr 2012** | **83** | **135** | **218** |

**(i) Costau ymddeoliad cynnar:** Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn talu costau ychwanegol buddion y tu hwnt i'r cynllun buddion diffiniedig arferol i weithiwr a ymddeolodd yn gynnar ar sail feddygol. Telir swm o arian bob blwyddyn, gydag amodau, i'r gweithiwr am y cyfnod rhwng gadael y swydd yn gynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Cyrhaeddodd y gweithiwr oedran ymddeol eleni a thalwyd gweddill y ddarpariaeth i ymddiriedolwyr y pensiwn i brynu blwydd-dâl.

**(ii) Dadfeiliadau:** Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â chydymffurfio â chymalau prydlesi adeiladau a ddefnyddir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae darpariaethau dadfeiliadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u cyfrifo ar sail cost amcangyfrifedig gwariant y dyfodol, er mwyn setlo'r rhwymedigaethau o ran cymalau'r brydles. Cwblhawyd gwaith ailbrisio gan briswyr allanol yn Rhagfyr 2010. Mae'r Cyngor Deintyddol wedi darparu ar gyfer hyn yn llawn. Disgwylir i'r ddarpariaeth gael ei thalu ar ddiwedd y brydles yn 2018.

18

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### 19 Y Gronfa Bensiwn

Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol gynllun buddion diffiniedig sy'n cael ei ariannu'n llawn gan gyfraniadau gan y Cyngor Deintyddol a'r Aelodau. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ar 1 Ebrill 2012 a'i ddiweddaru i 31 Rhagfyr 2012 gan actiwari annibynnol cymwysedig.

Ar 31 Rhagfyr 2013, roedd gan y Cynllun £5.194 miliwn o warged yn seiliedig ar y tybiaethau IAS 19 a fabwysiadwyd. Dan ofynion IFRIC 14: Y Cyfyngiad ar Ased Budd Diffiniedig, Lleiafswm y Gofynion Ariannu a'u Rhyngweithiad, gallai'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol orfod cyfyngu'r gwarged mewn datganiadau ariannol os na fyddai'n gallu sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged hwnnw. O dan delerau ac amodau'r Cynllun, byddai'r Cyngor yn gallu sicrhau'r budd economaidd llawn o'r gwarged naill ai trwy gymryd seibiant cyfraniadau llawn neu trwy leihau ei gyfraniadau yn y dyfodol. Felly, nid oes cyfyngiad ar y gwarged dan sylw.

Yn achos aelodau'r cynllun buddion a ymunodd â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol cyn 12 Mai 1999 a'r ddau aelod a ymunodd wedyn, telir cyfraniadau bob mis ar y gyfradd flynyddol o 27% o'r cyflog Pensiynadwy. Yn achos y rhai a ymunodd â'r Cyngor ar ôl 12 Mai 1999, telir cyfraniadau misol ar gyfradd flynyddol o 24.8%. Mae aelodau'r cynllun buddion a ymunodd â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar neu ar ôl 12 Mai 1999 yn talu 5% o'u Cyflog Pensiynadwy tuag at y cynllun.

Dyma'r prif dybiaethau a ddefnyddiodd yr actiwari ar gyfer y diweddariad ar 31 Rhagfyr 2013:

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| Cyfradd chwyddiant | 4% | 3% |
| Cyfradd cynnydd mewn cyflogau | 4% | 3% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu lle mae'r uchafswm LPI yn 5.0% | 4% | 3% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu mae'r isafswm LPI yn 3.0% | 4% | 3% |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu lle mae'r uchafswm LPI yn 2.5% | 3% | 2% |
| Cyfradd gostyngiad | 5% | 4% |
| Cyfran y gweithwyr sy'n dewis ymddeol yn gynnar yn 60 oed | 50% | 50% |
| Disgwyliadau oes tybiedig wrth ymddeol yn 65 oed: | | |
| Ymddeol heddiw – dynion | 24 | 24 |
| Ymddeol heddiw - menywod | 25 | 25 |
| Ymddeol mewn 20 mlynedd – dynion | 25 | 25 |
| Ymddeol mewn 20 mlynedd - menywod | 27 | 26 |

Mae'r tybiaethau marwoldeb ar gyfer y cyfnod cyfredol yn dilyn SINA Light gyda chyfraddau gwelliant yn unol â model CMI 2012 (1% y flwyddyn yn yr hirdymor)

# Nodiadau i'r cyfrifon

parhad

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### 19 Y Gronfa Bensiwn

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

| | Canran y dyraniad | Canran y dyraniad |
|---|---|---|
| | **2013** | **2012** |
| Y Gronfa Gydag Elw | 21% | 29% |
| Cronfa AXA Framlington | 51% | 44% |
| Cronfa BNY Mellon | 28% | 27% |
| Arall (arian parod) | 0% | 0% |
| **Cyfanswm** | **100%** | **100%** |

Ni fuddsoddwyd unrhyw asedau'r cynllun pensiwn yn y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Yr elw gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn y flwyddyn** | **£2,903** | **£1,435** |

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Dadansoddiad o'r symiau sydd wedi'u debydu/(credydu) i'r cyfrif incwm a gwariant:** | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol | (1,259) | (1,247) |
| Cyfanswm a godwyd o fewn adnoddau incwm net i mewn/(allan) | 129 | 124 |
| Cost elw net ar ymrwymiad pensiwn net | (1,130) | (1,123) |
| Ail-fesur ymrwymiad pensiwn net | 2,025 | 568 |
| **Cyfanswm cost** | **895** | **(555)** |
| | | |
| **Y symiau a gydnabuwyd yn natganiad y sefyllfa ariannol** | | |
| Gwerth presennol ymrwymiadau a ariennir | (12,690) | (11,119) |
| Asedau gwerth teg | 17,884 | 14,230 |
| **Gwarged** | **5,194** | **3,111** |

Disgwylia'r Cyngor gyfrannu £1,235,000 at ei gynllun pensiwn â buddion diffiniedig yn 2014.

18

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### 19 Y Gronfa Bensiwn

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Dyma'r dadansoddiad sensitifrwydd o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig:** | | |
| Cyfradd ddisgownt wedi'i lleihau 0.25% y flwyddyn | 13,633 | n/a |
| Chwyddiant RPI wedi cynyddu 0.25% y flwyddyn | 13,441 | n/a |
| Cyflogau wedi cynyddu 0.25% y flwyddyn | 13,059 | n/a |
| Marwoldeb – disgwyliad oes pob aelod yn cynyddu i rywun blwyddyn yn iau | 12,999 | n/a |
| | | |
| **Dyma'r newidiadau i werth presennol y rhwymedigaethau buddion diffiniedig:** | | |
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 1 Ionawr 2013 | 11,119 | 9,011 |
| Costau gwasanaeth y cyflogwr | 1,259 | 1,247 |
| Costau llog | 484 | 450 |
| Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun | 255 | 242 |
| Colled/(elw) profiad | (352) | 4 |
| Colled/(elw) ar newidiadau mewn tybiaethau demograffig | 59 | (71) |
| Colled ar newidiadau mewn tybiaethau ariannol | 558 | 360 |
| Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun/treuliau gweinyddol a dalwyd | (692) | (124) |
| **Rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar 31 Rhagfyr 2013** | **12,690** | **11,119** |
| | | |
| **Dyma'r newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun:** | | |
| Gwerth teg ar 1 Ionawr 2013 | 14,230 | 11,551 |
| Incwm llog | 613 | 574 |
| Enillion ar asedau'r cynllun yn fwy nag incwm llog | 2,290 | 861 |
| Cyfraniadau cyflogwr | 1,188 | 1,126 |
| Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun | 255 | 242 |
| Buddion a dalwyd/treuliau gweinyddol a dalwyd | (692) | (124) |
| **Gwerth teg ar 31 Rhagfyr 2013** | **17,884** | **14,230** |

# Nodiadau i'r cyfrifon

parhad

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### 19 Y Gronfa Bensiwn

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Newid mewn gwarged adferadwy ac elfennau o berfformiad y cynllun** | | |
| Balans agor | 3,111 | 2,540 |
| Costau gwasanaeth cyfredol | (1,259) | (1,247) |
| Llog ar y warged | 129 | 124 |
| Costau pensiwn net | (1,130) | (1,123) |
| Cyfraniadau cyflogwr | 1,188 | 1,126 |
| Elw actiwaraidd | 2,025 | 568 |
| **Balans cau** | **5,194** | **3,111** |

| | £'000 |
|---|---|
| **Cysoni gwerth elw actiwaraidd 2012** | |
| Swm a adroddwyd yng nghyfrifon 2012 ar gyfer elw actiwaraidd o dan IAS 19 | 727 |
| Addasiad IAS 19 (2011) a osodwyd yn 2013 | (159) |
| Swm a adroddwyd yng nghyfrifon 2013 ar gyfer elw actiwaraidd o dan IAS 19 (2011) | (568) |

| | 2013 | 2012 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Symiau ar gyfer cyfnodau cyfredol a blaenorol** | | |
| Elw ar asedau'r cynllun yn fwy nag incwm llog | 2,290 | 861 |
| Enillion/(colledion) profiad ar rwymedigaethau'r cynllun | 352 | (4) |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | (617) | (289) |
| Rhwymedigaethau buddion diffiniedig | (12,690) | (11,119) |
| Asedau'r cynllun | 17,884 | 14,230 |
| Gwarged | 5,194 | 3,111 |

Mae pob pensiynwr yn derbyn cynnydd gwarantedig o 3% y flwyddyn o dan delerau'r Cynllun am wasanaeth hyd at 6 Ebrill 1997. Caiff gwasanaeth ar ôl 6 Ebrill 1997 ei drin yn unol â Deddf Pensiynau 1995. Caiff unrhyw iawndal pellach am y cynnydd mewn costau byw ei ystyried yn flynyddol.

Yn 2013 roedd y cyfraniad premiwm blynyddol yn £1,233,770 (2012: £1,182,848) - gan gynnwys cyfraniad o £54,209 (2012: £54,209) ar gyfer y cynllun pensiwn cyfrannol diffiniedig. Roedd gwarged gan y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn.

# 18

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### 20 Ymrwymiadau dan brydlesi

#### Prydlesi gweithredol

**Nodyn** – mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm isafswm taliadau prydlesi yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredol ar gyfer pob un o'r cyfnodau isod:

Rhaid cofnodi cyfanswm gwerthoedd prydlesi yn erbyn pob categori terfynu, h.y. lle bo prydles yn cynnwys taliad blynyddol o £1,000 dros 10 mlynedd, rhaid cofnodi £1,000 dan derfyn >blwyddyn, £4,000 dan derfyn 2-5 mlynedd a £5,000 dan derfyn > 5 mlynedd

| | 31 Rhag 2013 | 31 Rhag 2012 |
|---|---|---|
| **Mae rhwymedigaeth o dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:** | **£'000** | **£'000** |
| **Tir ac adeiladau** | | |
| Hyd at flwyddyn | 949 | 668 |
| Rhwng blwyddyn a 5 mlynedd | 1,293 | 1,956 |
| 5 mlynedd a mwy | 192 | 213 |
| | **2,434** | **2,837** |
| **Arall:** | | |
| Hyd at flwyddyn | 143 | 24 |
| Rhwng blwyddyn a 5 mlynedd | 66 | 27 |
| | **209** | **51** |

### 21 Ymrwymiadau Cyfalaf

**Nodyn:** Cymeradwyodd y Cyngor yr achos busnes ar gyfer ailddatblygu 37 Wimpole Street ym mis Medi 2012. Dechreuodd y gwaith ailddatblygu yn 2013 a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn gynnar yn 2015.

Amcangyfrifwyd y byddai'r prosiect yn costio £7.3 miliwn i gyd ac erbyn diwedd 2013 roedd £799,000 o'r costau wedi'u gwario a'u hadrodd yn Nodyn 12 o fewn Asedau sy'n cael eu creu.

### 22 Trafodion partïon cysylltiedig

**Nodyn:** Ni chafwyd unrhyw drafodion gyda phartïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013, ar wahân i'r ffioedd a'r treuliau a dalwyd i Aelodau'r Cyngor fel y datgelwyd yn nodyn 7 y cyfrifon. Mae manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol y Cyngor i'w gweld ar dudalennau 39 a 40 yr Adroddiad Blynyddol.

### 23 Rhwymedigaethau wrth gefn

**Nodyn:** Nid oes gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol rwymedigaethau wrth gefn ar 31 Rhagfyr 2013.

# Cynghorwyr 19

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2013

### Bancwyr

Lloyds Banking Group, Corporate Markets, 3rd Floor, 25 Gresham Street, London EC2V 7HN

### Cynghorwyr Cyfreithiol

Capsticks Solicitors LLP, 77/83 Upper Richmond Road, London SW15 2TT

Kingsley Napley LLP, Knights Quarter, 14 St John's Lane, London EC1 4AJ

Blake Lapthorn, Harbour Court, Compass Road, North Harbour, Portsmouth, Hampshire PO6 4ST

### Archwilwyr allanol

haysmacintyre, 26 Red Lion Square, London WC1R 4AG

Sir Amyas C E Morse, The Comptroller and Auditor General, National Audit Office, 157-197 Buckingham Palace Road, Victoria, London SW1W 9SP

### Archwilwyr mewnol

Grant Thornton (UK) LLP, 30 Finsbury Square, London EC2P 2YU

Gwiriwch fod eich gweithiwr deintyddol proffesiynol wedi'i gofrestru: **www.gdc-uk.org**

Rydym am sicrhau bod ein holl wasanaethau'n hygyrch i bawb.

Os hoffech chi gael copi o'r adroddiad hwn mewn iaith neu fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print bras neu sain), cysylltwch â ni.

Gellir lawrlwytho copïau o'r ddogfen hon o'n gwefan.


Y CYNGOR DEINTYDDOL CYFFREDINOL
37 Wimpole Street, London W1G 8DQ
Ffôn: 020 7167 6000
E-bost: information@gdc-uk.org
Gwefan: www.gdc-uk.org


ISBN 978-1-4741-0583-5